# Agenda - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Ionawr 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Lleu Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDiwylliant@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol: Sesiwn dystiolaeth gyda darlledwyr cenedlaethol

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 29)

Sian Gwynedd, Pennaeth Pobl, Diwylliant a Phartneriaethau BBC Cymru Wales

Siân Doyle, Prif Weithredwr S4C

Nia Britton, Rheolwr Gweithrediadau ITV Cymru Wales

Papur briffio ymchwil

Ymateb i'r ymgynghoriad gan BBC Cymru Wales

Ymateb i'r ymgynghoriad gan S4C

Ymateb i'r ymgynghoriad gan ITV Cymru Wales

## 3 Papurau i'w nodi

(10.30-10.45)

### 3.1 Gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 26 Hydref

(Tudalennau 30 - 35)

**3.2 Gwybodaeth ychwanegol gan Screen Alliance Wales yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 30 Tachwedd**

(Tudalennau 36 - 37)

**3.3 Gwybodaeth ychwanegol gan Equity yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 30 Tachwedd**

(Tudalennau 38 - 41)

**3.4 Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch gwaith dilynol yn sgil y gwaith craffu ar Gysylltiadau Rhyngwladol**

(Tudalennau 42 - 45)

**3.5 Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch cefnogaeth ar gyfer Rubicon Dance**

(Tudalen 46)

**3.6 Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch craffu ar oblygiadau ariannol Biliau**

(Tudalennau 47 - 48)

**3.7 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Prif Weinidog ynghylch goblygiadau ariannol Biliau**

(Tudalennau 49 - 51)

**3.8 Llythyr gan Huw Marshall, Sylfaenydd Talking Wales, at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynglŷn â newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru**

(Tudalennau 52 - 61)

**3.9 Llythyr gan Gyngor Celfyddydau Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch dyfodol Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd**

(Tudalennau 62 - 66)

**3.10 Llythyr gan Gyngor Caerdydd at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch dyfodol Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd**

(Tudalennau 67 - 68)

3.11 **Llythyr gan y Prif Weinidog at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu**

(Tudalennau 69 - 72)

3.12 **Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Diogelwch Ar-lein**

(Tudalen 73)

3.13 **Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch cau Corgi Cymru**

(Tudalennau 74 - 76)

3.14 **Llythyr ar y cyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Luke Fletcher AS at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch ail gyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE**

(Tudalennau 77 - 78)

3.15 **Llythyr gan Weinidog Gwladol y Cyfryngau, Data a Seilwaith Digidol at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch Bil Cyfryngau Llywodraeth y DU sydd ar y gweill**

(Tudalennau 79 - 80)

3.16 **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch Cyllideb Ddrafft 2023-24**

(Tudalennau 81 - 84)

3.17 **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch cydlynu gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft ar addysg cyfrwng Cymraeg**

(Tudalen 85)

3.18 **Llythyr gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch**

ymgynghoriad gan Gyngor Dinas Caerdydd ar gynnig posibl i gau Amgueddfa Caerdydd

(Tudalennau 86 - 87)

3.19 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar effaith costau cynyddol

(Tudalennau 88 - 94)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(10.45)

## 5 Ôl-drafodaeth breifat

(10.45-10.55)

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Trafod y dystiolaeth gan y Prif Weinidog

(10.55-11.15) (Tudalennau 95 - 111)

Papur briffio ymchwil

Llythyr gan y Cadeirydd at y Prif Weinidog - 8 Tachwedd 2022

Llythyr gan y Cadeirydd at y Prif Weinidog - 30 Tachwedd 2022

Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru

## 7 Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Benodiadau Cyhoeddus: Trafod yr ohebiaeth

(11.15-11.30) (Tudalennau 112 - 113)

## 8 Canllawiau ar Drafodion Rhithwir a Hybrid

(11.30-11.35)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Ymchwiliad i Weithlu'r Diwydiannau Creadigol**

**Hydref 2022**

**Cyd-destun**

Mae BBC Cymru Wales yn croesawu'r cyfle hwn i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, fel rhan o'i ymchwiliad i Weithlu'r Diwydiannau Creadigol.

Mae'r BBC yn rhan annatod o wead Cymru, ac yn cael ei ddefnyddi gan 90% o oedolion yng Nghymru bob wythnos. Nod y BBC yw hysbysu, addysg a diddanu ei holl gynulleidfaoedd a chynnig gwerth gwych i bawb. Yng Nghymru, mae'n gwneud hynny mewn dwy iaith. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor bod pawb yn talu, yn rhannu'r costau, fel bod pawb yn cael rhaglenni a gwasanaethau gwych. Mae'r egwyddor hon o fod yn wasanaeth i bawb, o ddarparu gwasanaeth i bawb, yn golygu bod y BBC yn sefydliad cyfryngau sy'n cael ei lywio gan genhadaeth ac yn gaffaeliad mawr i Gymru ac i Brydain.

Yng Nghymru, mae cenhadaeth y BBC yn unigryw o bwysig wrth ddiffinio bywyd cenedlaethol. Dyma'r unig ddarlledwr cenedlaethol sy'n darparu amrywiaeth o gynnwys ar deledu, radio (BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales) ac ar-lein, yn Gymraeg a Saesneg. Daw'r cynnwys â'r genedl at ei gilydd, ac mae'n cynnwys newyddion, chwaraeon, adloniant ac addysg, yn ogystal â'r unig gerddorfa broffesiynol lawn yng Nghymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae elfen teledu Cymraeg ein cenhadaeth yn cael ei darparu mewn partneriaeth â S4C. Nid yw llawer o swyddogaethau'r BBC yng Nghymru yn cael eu darparu o gwbl gan y farchnad fasnachol.

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon diweddaraf yn dangos bod BBC Cymru yn cyflogi tua 876 o bobl mewn canolfannau ledled Cymru. Mae'r rhain cynnwys Caerdydd, Bangor, Wrecsam, Caerfyrddin, Aberystwyth ac Abertawe.

Mae'r niferoedd staff presennol wedi gostwng 60 o'r ffigwr blaenorol a adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020/21. Mae hyn yn unol â'r llwybr y mae'r BBC wedi'i gymryd i leihau'r niferoedd sy'n gweithio ar yr ochr ddarlledu cyhoeddus, i greu sefydliad mwy effeithlon.

Wrth ymateb i'r pandemig yn y flwyddyn flaenorol, oedwyd prosesau recriwtio ar gyfer rhai rolau nad oeddent yn hanfodol i'r busnes a dechreuwyd rhaglen o ddiswyddiadau gwirfoddol gyda'r bwriad o sicrhau arbedion yn gyflym yn wyneb yr her ariannol gynyddol. Creodd hyn gyfle i ail-lunio a symleiddio strwythur y BBC, a pharhaodd y strategaeth hon yn 2021/22.

Gweithiodd rhai aelodau staff a oedd yn hanfodol i ddarlledu o'n canolfannau darlledu drwy gydol y pandemig, ac rydym yn ddiolchgar iddyn nhw am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb drwy gydol y cyfnod anodd a heriol hwn. Mae staff nad ydynt yn gweithio ar ein allbwn byw wedi dychwelyd yn raddol i'r gweithle drwy weithio hybrid.

Cafodd y pandemig effaith sylweddol ar gynyrchiadau teledu yma yng Nghymru a ledled y DU, gan arwain at broses gynhyrchu arafach o lawer mewn rhai enghreifftiau. Gyda rhai, daeth y cynyrchiadau i stop yn gyfan gwbl.

Mae'r gystadleuaeth o fewn farchnad deledu'r DU wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y degawd diwethaf wrth i ddefnyddwyr gael mwy o ddewis nag erioed o'r blaen. Yn ogystal, mae apêl cynnwys a gynhyrchir yn y DU i gynulleidfaoedd byd-eang wedi cynyddu'r buddsoddiad yn sector cynhyrchu'r DU. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn costau cynhyrchu ('chwyddiant mewnbwn') oherwydd y gystadleuaeth am adnoddau cynhyrchu, yn enwedig mewn genres fel drama ym mhen

uchaf y farchnad. Mae'r DU, yn benodol, yn wynebu chwyddiant mewnbwn sylweddol oherwydd y 'bwlch sgiliau' presennol, prinder gofod stiwdio a ffactorau eraill sy'n cyfyngu ar ba mor gyflym y gall capasiti cynhyrchu ehangu. Mae hyn wedi golygu bod chwyddiant y sector cynhyrchu wedi bod yn uwch na chwyddiant cyffredinol. Yn ogystal, bydd y gyfradd uwch o chwyddiant cyffredinol, sy'n cael ei lywio gan gostau ynni a chynnydd ym mhrisiau cynnyrch eraill, yn effeithio ar y sector cynhyrchu yn sgil y cynnydd mewn costau ac yn parhau i effeithio ar y sector ar ôl y pandemig, gan wthio'r costau ar gyfer comisiynwyr fel y BBC hyd yn oed yn uwch.

Nid yw pwysau costau yn unigryw i'r BBC. Yn ôl Arolwg *Broadcast* 2022 ar gyfer Cwmnïau Annibynnol, roedd y rhai a ymatebodd yn parhau i weld cyllidebau eu cynyrchiadau yn cael eu heffeithio gan Covid-19; dywedodd 92% o gwmnïau annibynnol fod eu costau'n uwch, rhwng 10% a 25% o'r hyn oeddent cyn y pandemig, er bod y cyfyngiadau ar ffilmio wedi'u llacio erbyn diwedd 2021. Roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn dweud bod eu costau cynhyrchu yn uwch na 2020[1].

**Cyllido**

Er bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y gweithlu yn yr ymchwiliad hwn, teimlwn ei fod yn bwysig rhoi cyd-destun i'r drafodaeth a'r ddadl ynglŷn â dyfodol cyllid cyfredol y BBC a model cyllido y dyfodol.

O ran y cyllid presennol, y man cychwyn yw bod y BBC wedi bod yn rheoli gostyngiad termau real o tua 30% yn ei incwm ers 2021. Yn ogystal, mae lefel Ffi'r Drwydded wedi'i rhewi yn 22/23 a 23/24. Byddai hyn yn heriol o dan unrhyw amgylchiadau, ond mae gorchwyddiant yn achosi mwy o bwysau, gan gynnwys bil cyflogau ychwanegol, ynni a chostau dosbarthu dan gontract.

Mae cyfuniad o'r materion hyn wedi creu amgylchedd ariannol eithriadol o anodd ac, ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd yn arwain at amcangyfrif o £400m o ddiffyg ariannol i'r BBC erbyn diwedd cyfnod Ffi'r Drwydded presennol.

O fewn y BBC, mae hyn eisoes wedi arwain at benderfyniadau anodd iawn o ran yr hyn y gallwn ei ariannu. Mae'r BBC wedi cyhoeddi'n barod ei fwriad i roi'r gorau i nifer o raglenni a gwasanaethau.

O ran model cyllido'r dyfodol – dadl y mae'r BBC yn ei chroesawu – o gofio effaith y cyllid ar y sector creadigol. Mae'n bwysig bod yr holl opsiynau'n cael eu hystyried, gyda'r cyhoedd wrth wraidd y ddadl. Dylai unrhyw broses ennyn hyder y cyhoedd, y Senedd a Llywodraeth y DU a dylai fod yn seiliedig ar dystolaeth. Yn hytrach nag ateb cwestiynau'r presennol yn unig, dylai unrhyw fodel cyllido fod yn gynaliadwy hefyd oherwydd bydd y tirlun cyfryngau yn wahanol iawn yn y 2030au.

Gall y BBC, wrth gwrs, gael ei gyllido mewn gwahanol ffyrdd, ond gallai'r canlyniad arwain at BBC gwahanol iawn. Gall arwain at oblygiadau sylweddol i gynulleidfaoedd ac economi greadigol y DU. Fel rhan o'r ddadl hon, mae'n hanfodol deall beth mae cynulleidfaoedd ei eisiau ac yn ei ddisgwyl wrth y BBC yng Nghymru, yn y DU drwyddi draw, ac o ran lle'r DU yn y farchnad gyfryngau fyd eang. Ar hyn o bryd, y BBC yw'r unig sefydliad cyfryngau Prydeinig sy'n gweithredu ar raddfa fawr yn y DU, yn fyd eang, gyda chenhadaeth gyhoeddus yn greiddiol iddo.

Mae'r BBC wedi nodi pum egwyddor y dylai model ariannu eu bodloni er mwyn cefnogi'r BBC fel caffaeliad cenedlaethol a byd eang:

[1] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0016/242701/media-nations-report-2022.pdf, p.46

- **A yw'n cyflawni'r Genhadaeth?** – darparu gwasanaeth cyhoeddus i bawb yn y DU, i hysbysu, addysgu a diddanu. Mae pawb yn defnyddio ac yn elwa o'n newyddion diduedd y gellir ymddiried ynddo, cynnwys Prydeinig o ansawdd a gwasanaethau addysg.
- **A yw'n diogelu didueddrwydd ac annibyniaeth?** – hyrwyddo democratiaeth rydd yn y DU ac yn fyd-eang. Gweithredu heb ofn na ffafriaeth i fuddiannau gwleidyddol neu fasnachol.
- **A yw'n darparu model ariannol cynaliadwy?** – cefnogi'r BBC i arloesi a moderneiddio i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd newydd. Galluogi'r BBC i fod yn uchelgeisiol, gweithredu ar raddfa fawr mewn marchnad ddigidol fyd-eang.
- **A yw'n helpu'r economi greadigol i dyfu?** – galluogi'r BBC i fuddsoddi a gweithio mewn partneriaeth i dyfu diwydiannau creadigol y DU sydd gyda'r gorau'n y byd, datblygu talent o Brydain ac allforio cynnwys a gwasanaethau o Brydain yn fyd-eang. Creu brand cryf yn y DU sy'n cael ei werthfawrogi ar draws y byd.
- **A yw'n darparu gwerth teg i gynulleidfaoedd? –** sicrhau system sy'n deg i'n cynulleidfaoedd, yn cynnig gwerth da yn erbyn y farchnad ac sy'n cael ei chefnogi'n eang.

**Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Mae creu gweithlu amrywiol a chynhwysol yn flaenoriaeth i'r BBC yn ogystal â sicrhau bod ein cynnwys yn adlewyrchu'r gymdeithas a wasanaethwn. Er ein bod wedi gwneud cynnydd da yn y ddau faes, mae dal gwaith i'w wneud yn y maes hwn.

Drwy weithio gyda phartneriaid fel Cyswllt Diwylliant Cymru, Cynghrair Sgrin Cymru ac It's My Shout, ein nod yw sicrhau ein bod yn bwrw ati i sicrhau ffrwd fwy amrywiol o dalentau ar gyfer BBC Cymru a'r diwydiant yn ehangach.

Mae ein gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd yn y maes hwn yn flaenoriaeth - o ran teithiau o'n canolfan ddarlledu yn y Sgwâr Canolog, ac yn benodol y gwaith rydym yn ei wneud gydag ysgolion ledled Cymru. Dros yr wythnosau diwethaf, cynhaliwyd prosiect ychwanegol gydag ysgolion. Prosiect sy'n dathlu canmlwyddiant y BBC yw Rhanna dy Stori, sy'n defnyddio ein staff a'n cyflwynwyr i ysbrydoli gweithlu'r dyfodol.

O ran cynhwysiant, mae gennym amrywiaeth o rwydweithiau staff sy'n cael eu cefnogi gan y busnes. Mae'r rhain yn cynnwys rhwydwaith anabledd, rhwydweithiau LHDTC+ a BAME a llawer mwy. Mae'r rhwydweithiau hyn yn cysylltu ac yn cefnogi staff ac yn cael eu rhedeg gan gydweithwyr sy'n fodelau rôl dros amrywiaeth a chynhwysiant. Yn ogystal ag awydd i sicrhau bod lleisiau eu haelodau'n cael eu clywed, maen nhw'n frwd dros annog dealltwriaeth ddyfnach o amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y BBC. Mae'n nhw'n gaffaeliad enfawr i'n gweithle ac rydym hefyd yn eu helpu i weithio'n strategol ar ran staff yn ogystal â'n cynulleidfaoedd, ac mae ganddynt rôl hollbwysig yn llwyddiant y BBC yn y dyfodol.

Yn ogystal, rydym wedi penodi Rheolwr Portffolio yn ddiweddar i ganolbwyntio ar gynhwysiant yn BBC Cymru.

Mae BBC Cymru hefyd yn cynnig prentisiaethau ar hyd y flwyddyn. Fel rhan o'r broses o recriwtio prentisiaid, rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein timau adnoddau yn estyn allan i gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ar draws Cymru. Ddechrau 2023, byddwn yn treialu hyfforddeiaethau anabledd ar ôl cydweithio'n agos gydag Anabledd Cymru.

**Sgiliau a Hyfforddiant**

Ar hyn o bryd, mae BBC Cymru yn gweithio'n agos gyda phartneriaid o fewn y diwydiant ar ddatblygu sgiliau a nodi meysydd lle ceir diffyg sgiliau neu hyfforddiant. Mae'r partneriaethau hyn o fewn y diwydiant yn cynnwys y Cynllun Carlam Ffeithiol yng Nghymru, a fydd yn lansio am y trydydd tro yn ystod yr wythnosau nesaf. Nod y cwrs datblygu hwn, sy'n cael ei drefnu mewn partneriaeth â Channel 4, S4C, Cymru Greadigol a chwmnïau cynhyrchu annibynnol ledled Cymru, yw meithrin y genhedlaeth nesaf o arweinwyr ym maes cynhyrchu ffeithiol.

Cynllun Ffilm Cymru ar gyfer ffilmiau byrion yw prosiect Beacons, sy'n taflu goleuni ar dalentau o Gymru, cefnogi gwneuthurwyr ffilmiau newydd o Gymru i wneud eu marc, gyda chyllid, hyfforddiant a chyngor. Caiff ei gefnogi gan BBC Cymru Wales a Rhwydwaith y BFI gyda chyllid y Loteri Genedlaethol. O bortread dogfen o fywyd lleol i gomedi arswyd tywyll, mae'r prosiectau a gomisiynir drwy'r Beacons yn adlewyrchu amrywiaeth gyfoethog y talentau a'r straeon sydd gan Gymru i'w chynnig.

Mae BBC Cymru wedi bod yn cynnal Cynllun Cyfarwyddwyr Newydd ers 2017. Ar ôl nodi'r angen i roi cyfle i gyfarwyddwyr talentog, ar ddechrau eu gyrfaoedd, wneud eu rhaglen ddogfen ffurf-hir gyntaf, lansiwyd y cynllun lle mae'r pedwar ymgeisydd llwyddiannus yn cael cyfle i gynhyrchu rhaglen ddogfen hanner awr i BBC Cymru. Mae'r gwneuthurwyr ffilmiau newydd hefyd yn cael mynediad at gyfres o sesiynau mentora arbenigol a dosbarthiadau meistr gydag enwau blaenllaw yn y maes rhaglenni dogfen yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (NFTS) wedi sefydlu hwb cenedlaethol newydd yng nghanolfan ddarlledu BBC Cymru yn y Sgwâr Canolog mewn partneriaeth â'r darlledwr a Cymru Greadigol. Yn dilyn llwyddiant canolfannau yn Glasgow a Leeds yn ogystal â'i brif safle yn Beaconsfield, mae NFTS Cymru yn canolbwyntio ei weithgaredd ar gefnogi'r rhai sydd newydd raddio i ddatblygu'r sgiliau lefel uwch sydd eu hangen naill ai i ddilyn astudiaethau ôl-raddedig neu i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r diwydiannau creadigol.

Gyda chyllid Cymru Greadigol, mae'r ganolfan hyfforddi genedlaethol newydd yng Nghymru hefyd yn cefnogi talent newydd, yn ogystal â chryfhau datblygiad sgiliau. Mae BBC Cymru yn cydweithio'n agos gyda NFTS i weld lle mae'r bylchau o ran sgiliau ac i wneud y gorau o gyfleoedd hyfforddi.

Bob blwyddyn, mae BBC Cymru yn cynnig nifer o brentisiaethau ar draws y busnes, i gefnogi twf sgiliau yn y diwydiant ac yn ein gweithlu. Mae'r amrywiaeth o gynlluniau sydd ar gael wedi'u gwasgaru ar draws y busnes, o Newyddiaduraeth, Technoleg a Gweithrediadau, i Chwaraeon, Radio a Chynulleidfaoedd. Ein nod yw datblygu gweithlu medrus ac amrywiol tra'n cynnig profiad dysgu eithriadol i'n prentisiaid. Ar hyn o bryd, mae gennym 27 o brentisiaid ar draws nifer o adrannau o fewn BBC Cymru, sy'n cael hyfforddiant yn y gwaith yn ogystal â chyfleoedd dysgu gyda'n partneriaid addysgol yng Nghymru fel Sgil Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro. Mae ein portffolio prentisiaethau wedi'i dargedu i sicrhau ein bod yn adeiladu sylfaen sgiliau gynaliadwy yn ein gweithlu a'r diwydiant ehangach. Mae nifer o'n prentisiaid sy'n graddio yn sicrhau cyflogaeth hirdymor gyda BBC Cymru ar ddiwedd eu cynllun, ac mae eraill yn mynd ymlaen i weithio yn y sector creadigol ehangach yng Nghymru.

**Cydweithio â Cymru Greadigol**

Ym mis Medi 2021, llofnododd y BBC Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Cymru Greadigol. Roedd perthynas waith dda rhwng y ddau bartner cyn yr arwyddo ffurfiol ac mae'n parhau i ffynnu a thyfu. Mae Cymru Greadigol yn cynnig gwerth i'r BBC mewn sawl ffordd, gan gynnwys cyd-gyllido cynnwys, meithrin gallu yn y sector, buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant, yn ogystal â defnyddio ei rôl genedlaethol o ddod â phobl at ei gilydd er lles y cyhoedd.

Mae'r bartneriaeth rhwng y BBC a Cymru Greadigol yn canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion canlynol:

- Effaith greadigol – cynnwys portread o Gymru ar draws y DU ac yn fyd-eang mewn cynnwys a gomisiynir
- Effaith economaidd – tyfu ac uwch-sgilio sylfaen diwydiannau creadigol Cymru
- Sicrhau bod ein cynnwys yn cael ei gynhyrchu mewn ffordd sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru
- Cyfrannu at lwyddiant economaidd Cymru ar ôl COVID-19 ac mewn ffordd sy'n amgylcheddol ac yn gymdeithasol gyfrifol

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n cefnogi'r bartneriaeth yn amlinellu'r ymrwymiadau blynyddol o ran cynnwys a rhaglenni wrth y naill barti. Cyflawnwyd y rhain yn y flwyddyn gyntaf ac rydyn ni ar y trywydd iawn i'w cyflawni yn yr ail flwyddyn. Er enghraifft, cyfrannodd Cymru Greadigol gyllid tuag at ail gyfres *The Pact,* a fydd yn cael ei darlledu yn yr Hydref, yn ogystal ag ystod o gyfresi drama a rhaglenni ffeithiol eraill – gan gynnwys cyd-gomisiwn BBC Three a BBC Cymru, *Hot Cakes.*

Mae'r bartneriaeth yn mynd y tu hwnt i deledu. Chwaraeodd Cymru Greadigol rôl amlwg yng Ngŵyl 6 Music a ddaeth i Gaerdydd ym mis Ebrill. Maen nhw hefyd yn bartner allweddol yn yr Ŵyl Gomedi, a fydd yng Nghaerdydd am y deuddeg mis nesaf. Fel rhan o'r ŵyl, bydd cynllun partneriaeth, sy'n cael ei gyd-gyllido gan Cymru Greadigol, yn paru cwmni cynhyrchu annibynnol o Gymru sy'n dechrau arni gyda chyflenwr blaenllaw sy'n cynhyrchu comedi i'r BBC, er mwyn helpu i gryfhau a gwella cynyrchiadau comedi yng Nghymru.

S4C yw'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg annibynnol ac mae'n un o chwe PSB y DU. Mae S4C yn cynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg bob dydd o'r wythnos ac ar draws amrywiaeth o genres a llwyfannau. Mae hyn yn hanfodol i'r gynulleidfa ac yn hollbwysig o ran dyfodol y Gymraeg.

Rydym hefyd yn chwarae rhan bwysig drwy gefnogi'r diwydiant creadigol ehangach. Fel y darlledwr sy'n comisiynu'r nifer fwyaf o oriau o gynnwys o Gymru bob blwyddyn, mae S4C yn gonglfaen i'r sector sgrin yng Nghymru. Mae bron i 80% o'n harian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn cynnwys gan gwmnïau ledled Cymru ac mae hynny yn ei dro yn cefnogi gweithlu gyda sgiliau uchel sy'n gallu gweithio yn eu cymunedau.

Yn 2019/20, roedd S4C yn gyfrifol am effaith economaidd gwerth £197.4m yn economi'r DU ac o £141.1m yng Nghymru. Gyda gwariant uniongyrchol o £102.7 miliwn yn 2019-20, rydym yn cefnogi 101 o swyddi FTE ar gyfartaledd yn S4C a 2,334 o weithwyr a gweithwyr llawrydd yn ein cadwyn gyflenwi - gyda'r rhan helaeth o'r rhain yng Nghymru. Mae S4C yn chwarae rhan allweddol yng Nghymru nid yn unig i'r gynulleidfa a'r Gymraeg, ond hefyd i'r economi a'r gweithlu ehangach

**Beth yw iechyd presennol gweithlu'r sector, gan gynnwys effeithiau'r pandemig, Brexit a'r argyfwng costau byw? A yw gweithwyr wedi gadael y sector, a pha effaith y mae hyn wedi'i chael?**

Gweledigaeth S4C ar gyfer y sector gynhyrchu yng Nghymru yw gweithlu medrus, dwyieithog, cynrychioladol a chynhwysol iawn. Mae darlledwyr angor fel S4C wedi chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y diwydiannau creadigol yma, gan arwain at gadwyn gyflenwi gref o gwmnïau cynhyrchu annibynnol gan wneud cynnwys o'r radd flaenaf. Rydyn ni'n gweithio gyda Cymru Greadigol, asiantaeth Llywodraeth Cymru, ar ddatblygu sgiliau a thalent, gan ganolbwyntio ar gyfleoedd i bobl o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli yn y sector ac adeiladu gweithlu mwy sy'n gallu gweithio yn nwy iaith genedlaethol Cymru.

Ac eto, fel yng ngweddill y DU, mae bylchau sgiliau ar draws bron pob maes arbenigedd yn y sector yng Nghymru. Er bod hyn wedi ei waethygu gan y pandemig, mae yna brinder gweithwyr yn gyffredinol hefyd. Achoswyd hyn yn rhannol oherwydd y cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf mewn cynyrchiadau sy'n cael eu ffilmio yma oherwydd llwyddiant ac enw da sector teledu Cymru - sector a sefydlwyd yn bennaf o ganlyniad i fodolaeth S4C fel y darlledwr cyhoeddwr Cymraeg (h.y. rydym yn comisiynu mwyafrif ein cynnwys yn hytrach na'i greu ein hunain.) Mae galw mawr am weithlu sector-sgrin Cymru hefyd mewn meysydd y tu hwnt i Gymru, sy'n gallu creu heriau recriwtio ychwanegol.

Gallai'r bwlch sgiliau hwn, o bosibl, gynnig cyfle enfawr i dyfu gweithlu medrus iawn i weithio yn y cymunedau ledled Cymru lle mae partneriaid cynhyrchu S4C wedi'u lleoli. Yn ogystal â'r prinder a nodwyd ar hyn o bryd y tu ôl ac o flaen y

camera, rydym yn gynyddol yn gweld tueddiadau ar gyfer sgiliau newydd: creu cynnwys digidol neu aml-lwyfan, gwyddonwyr data, datblygwyr a mwy.

Mae Screenskills yn amcangyfrif bod angen tua 15-21,000 o griw ychwanegol erbyn 2025, ledled y DU. Maent yn amcangyfrif ymhellach y bydd y gwerth a ddychwelodd i economi'r DU tua 15 gwaith y gost o fuddsoddi yn y sgiliau a'r hyfforddiant sydd ei angen i hyfforddi'r gweithlu ychwanegol hwn.

Cafodd Covid effaith ar gynyrchiadau gan gynnwys y ffaith nad oedd cwmnïau yn gallu cael yswiriant ar gyfer Covid. Nododd S4C ar y pryd bod yswiriant wedi codi i fod yn 0.85-1% o gyllideb cynhyrchiad a'r swm roedd rhaid i gwmnïau ei dalu o ryw £2.5k-£4k (yn dibynnu ar lefel risg y cynhyrchiad) i £10k-£40k. Dyw cwmnïau dal ddim yn gallu cael mynediad at yswiriant Covid, ac maent bellach yn adeiladu systemau iechyd a diogelwch Covid i'w cyllidebau cynhyrchu.

Nid oes gan S4C union ffigyrau o ran pobl yn gadael y sector. Yn sicr fe wnaeth comisiynau S4C barhau yn ystod y cyfnodau clo gyda rowndiau comisiynu ychwanegol i gefnogi'r sector a'r gweithlu ac i sicrhau bod cynnwys ar y sgrin i ddiddanu ein gwylwyr.

Yn gyffredinol, mae cynnydd cyffredinol mewn costau cynhyrchu cynnwys y tu hwnt i Covid. Mae prisiau wedi cynyddu yn sylweddol ar bob agwedd – o ran costau tanwydd / egni i fusnesau – i gynnydd sylweddol uniongyrchol ond hefyd anuniongyrchol drwy'r gadwyn gyflenwi, e.e. costau teithio, cyfraddau gwestai, a chostau gweithwyr, yn enwedig rhai llawrydd.

**Pa mor sefydlog yw'r sector yn ariannol a pha mor addas yw'r tâl a'r amodau gweithio?**

Gyda setliad ffi'r drwydded yn Ionawr 2022, cafodd S4C sicrwydd o'i chyllid cyhoeddus tan Ebrill 2028. Bydd S4C yn derbyn £88.85m o ffi'r drwydded Rydym wedi croesawu hyn, gan ei fod yn ein galluogi i gynllunio ein cynnwys a'n comisiynau yn hir dymor. Mae'r £88.85 yn cynnwys cynnydd o £7.5m y flwyddyn i gefnogi datblygiad digidol S4C, fydd hefyd yn cael ardrawiad gadarnhaol ar y sector yng Nghymru. Mae'r cyllid wedi ei rewi am ddwy flynedd gyntaf y setliad, ond bydd cynnydd CPI o 1 Ebrill 2024. Mewn termau real a thra bo chwyddiant yn uchel, bydd setliad S4C yn is wedi 24/25 oherwydd ein bod yn cael setliad fflat am y ddwy flynedd cyn hynny.

S4C yw un o brif gomisiynwyr y sector felly mae'r sicrwydd ariannol o'r setliad a rôl S4C fel darlledwr gyhoeddwr sydd yn comisiynu mwyafrif ei chynnwys heb os yn cyfrannu at sefydlogrwydd y sector Cymraeg. Mae ein cwmnïau cynhyrchu ni yn gyflogwyr pwysig yn eu hardaloedd lleol ac yn teithio ledled Cymru i ffilmio cynnwys i S4C. Amcangyfrifodd ymchwil Arad yn 2021 bod gwariant S4C yn 2019-20 yn cefnogi 2,334 o weithwyr a gweithwyr llawrydd y DU drwy'r gadwyn gyflenwi a bod S4C wedi creu effaith economaidd o £141.1m ar yr economi yn ystod yr un cyfnod.

Fodd bynnag, mae costau cynhyrchu wedi cynyddu yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf – gyda drama yn enwedig. Nodwn y canlynol o adroddiad Ofcom Sgrin Fach: Dadl Fawr – adolygiad pum mlynedd o ddarlledu cyhoeddus (2014-18) (cyhoeddwyd 27 Chwefror 2020):

" Yn 2018, gwariodd gwasanaethau aml-sianel lai ar ddramâu a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf na’r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, er bod eu gwariant bob awr yn uwch. Cynyddodd costau drama fesul awr yn y sector aml-sianel, gan gynnwys gwariant trydydd parti, yn ddramatig yn ystod cyfnod ein hadolygiad i £1.9m yr awr yn 2018, i fyny o £1m yn 2014. Mae hyn yn gyson â gwariant cynyddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar ddrama, a gynyddodd o £1.1m i £1.7m yr awr yn ystod yr un cyfnod."

Tra bo costau cyfartalog ar gyfer cynyrchiadau drama S4C pen uchel (*high-end)* yn is na hyn ar tua £250k-£300k yr awr, mae cynnydd o £25k-£50k yr awr mewn tariff yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi bod, felly 10%+.

Mae prinder gweithlu (sydd, fel a nodwyd, yn rhannol achos llwyddiant ac enw da drama o Gymru yn denu cynyrchiadau a chwmnïau yma) hefyd wedi cael effaith ar gostau cynhyrchu. Tra bod y llwyddiant yma yn beth positif, mae wedi golygu bod mwy o alw am staff na sydd o weithlu. Ac wrth gwrs, mae’n hawdd deall penderfyniad gweithwyr llawrydd sydd yn dewis gweithio ar gynyrchiadau ar gyfer SVoDs a llwyfannau rhyngwladol sydd gyda chyllidebau llawer mwy na rhai’r darlledwyr cyhoeddus. Rydym ni’n eiddgar i gynyddu’r nifer o bobl all weithio yn Gymraeg ar y sgrin a thu ôl i’r camera. Mae gwir gyfle yma i ddatblygu gweithlu allai gyfrannu tuag y miliwn ac i ddyblu ddefnydd dyddiol, a byddem yn croesawu cydweithio pellach, gan gynnwys drwy Cymru Greadigol a Cymraeg 2050 yn gweithio gyda’r darlledwyr i wireddu hyn.

Mae S4C yn disgwyl bod y cwmnïau sydd yn creu cynnwys iddi yn sicrhau amodau gweithio a thâl teg i’w gweithluoedd. Rydym yn cydweithio’n agos gyda TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) i sicrhau ymarfer gorau a pherthnasau diwydiannol da yng ngweithgareddau cynhyrchu ei aelodau. Rydym yn cyflawni hyn drwy gyfuniad o delerau comisiynu, cyhoeddi polisïau a chanllawiau a chyfrannu’n ariannol i waith perthnasau diwydiannol TAC.

Rydym ni hefyd yn cydweithio gyda TAC ar hyfforddiant, ac yn cefnogi ystod o gynlluniau fel *The Whole Picture Programme* y Film and TV Charity, peilot Hwylusydd Lles CULT Cymru, Bectu a 6ft from the Spotlight i sicrhau amodau gweithio teg.

**Pa mor gydradd, amrywiol a chynhwysol yw’r sector? Sut y gellir gwella hyn?**

Mae adlewyrchu Cymru yn flaenoriaeth i S4C. Rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at wella amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector darlledu yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwaith sy'n fewnol i S4C yn ogystal ag ymwneud â chwmnïau cynhyrchu a phartneriaid eraill wrth gomisiynu a datblygu cynnwys, a chefnogi talent newydd. Penodwyd Swyddog Amrywiaeth a Chynhwysiant yn Rhagfyr

2020 i gyd-lynu'r gwaith yma ac mae strategaeth amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb S4C ar gael ar y linc yma.

Prif flaenoriaethau S4C yw gwella cynhwysiant o ran anabledd ac ethnigrwydd lleiafrifol gan mai dyma'r ddwy nodwedd lle mae mwyaf o dangynrychiolaeth yn y sector sgrin yng Nghymru. Rydym ni hefyd yn cymryd camau i sicrhau bod pobl o gefndiroedd llai breintiedig yn economaidd-gymdeithasol yn dod i weithio yn y sector ac mae hyn hefyd yn flaenoriaeth fawr inni.

Yn wahanol i'r darlledwyr eraill, nid yw S4C monitro yn ffurfiol hyd yma. Rydym yn gweithio ar hyn fel blaenoriaeth fel ein bod yn gallu gosod targedau fel mae rhai o'r darlledwyr sydd dan drwydded Ofcom wedi gorfod ei wneud ers rhai blynyddoedd. Byddwn yn ymuno â chynllun monitro Diamond sy'n cael ei redeg gan y Creative Diversity Network (CDN) cyn gynted ag y gallwn. Bydd hyn yn rhoi data inni am ba mor amrywiol a chynhwysol yw cynnwys S4C a'r sector sy'n creu i ni fel y gallwn ni osod targedau ein hunain i adlewyrchu ein cynulleidfa.

Rydym yn gweithio i wella cynhwysiant a chynrychiolaeth drwy nifer o ffyrdd gan gynnwys ein haelodaeth o'r CDN, gwaith partneriaeth gyda chyrff a sefydliadau arbenigol sy'n ein cynghori ac yn gweithredu cynlluniau penodol gydag S4C, a thrwy ariannu prosiectau a chynlluniau penodol e.e.

- noddi bwrsariaethau i roi mynediad i'r sector i bobl o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli – gyda'r Coleg Cerdd a Drama, Prifysgol Cardiff Met, JOMEC ac Ysgoloriaeth Newyddiaduraeth S4C;
- gweithio gyda Cyswllt Diwylliant Cymru (Culture Connect) i gefnogi cyfleoedd yn y sector ffilm a theledu yng Nghymru;
- It's My Shout a Screen Alliance Wales i gyflwyno'r sector a rhoi profiad a hyfforddiant;
- cyd-ariannu peilot Rad Cymru Wales i roi profiad gwaith a hyfforddiant i newydd-ddyfodiaid;
- trefnu hyfforddiant penodol ar gynhwysiant ar gyfer S4C, ac ar gyfer y sector drwy ein partneriaeth efo TAC, mewn partneriaeth gyda sefydliadau allanol fel Stonewall, DAC, Hi-jinx ac eraill;
- wedi noddi pared Pride Cymru 2022 a chomisiynu cynnwys arbennig

Mae nifer o'r cynlluniau yma yn uno'n strategaethau hyfforddiant a chynhwysiant ni – mae'r ddau beth ynghlwm. Ond mae mwy y gallwn ei wneud. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol os ydym ni am sicrhau bod y gweithlu a'r cynnwys yn adlewyrchu Cymru heddiw. Ein bwriad yw parhau i weithio gyda sefydliadau a darlledwyr eraill a gyda'r ddwy lywodraeth i barhau i weld cynnydd.

Byddem yn cefnogi rhaglen sgiliau integredig ledled Cymru a arweinir gan ddiwydiant i wella amrywiaeth a chynrychiolaeth o fewn gweithlu'r sector, sy'n gysylltiedig hefyd ag uchelgeisiau Cymraeg 2050.

**Pa mor ddigonol yw'r cyfleoedd hyfforddi a sgiliau? A oes bylchau, a sut dylid eu llenwi?**

Fel sydd wedi ei nodi eisoes, yn rhannol oherwydd llwyddiant y sector, mae prinder gweithlu sy'n golygu bod gapiau sgiliau ar draws bron pob arbenigedd

gwaith ac mae hyn wedi ei ategu gan yr ymchwil sgiliau sydd wedi ei wneud gan Clwstwr Cymru a Llywodraeth Cymru ers 2020. Fel mae’r adroddiadau yn nodi hefyd, mae gapiau pellach yn codi o ran gweithlu sy’n gallu siarad Cymraeg a Saesneg.

Mae gan S4C hanes o gefnogi a hyfforddi blaenllaw yn y sector, a bydd yn cyhoeddi ei strategaeth sgiliau a hyfforddi ddiweddaraf yn 2023 er mwyn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn y sector yng Nghymru. Ers 2019, mae S4C wedi ffurfio partneriaeth gyda TAC, er mwyn darparu rhaglen sgiliau a hyfforddi ar gyfer ei chynhyrchwyr. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi darparu dros 75 o gyrsiau, gan symud ar-lein yn ystod y cyfnod clo cyntaf i gefnogi'r sector.

Mae angen mwy o fuddsoddiad mewn sgiliau a datblygu talent i sicrhau sector cynhyrchu cynaliadwy ac arloesol, a all gystadlu'n rhyngwladol tra hefyd yn bodloni'r galw domestig. Mae hyfforddiant sy'n cael ei arwain gan y sector yn hanfodol. Yn ogystal â TAC, mae S4C hefyd yn cyd-ariannu nifer o raglenni hyfforddi gyda Cymru Greadigol, Screen Alliance Wales, It's My Shout a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill gan gynnwys y BBC, ITV a Channel 4. Mae sicrhau cynrychiolaeth hefyd yn nod nifer o’r rhaglenni hyfforddiant hyn.

Mae meithrin talent hirdymor yn ddelfrydol yn gofyn am gynllunio cyllid mwy hirdymor nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Dylai cynlluniau i lenwi bylchau talent a sgiliau mewn meysydd ble mae galw mawr - fel creu cynnwys digidol ac adrodd straeon - ddechrau yn ifanc, nid trwy hyfforddiant ôl-16 yn unig. Dylid sicrhau bod y cynlluniau yma yn rhan o bartneriaethau'r sector a mentrau ehangach, gan gynnwys targedau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Cynlluniau mynediad a dod â phobl newydd i’r gweithlu, o bob cefndir, yw blaenoriaeth S4C. Rhaid wrth fwy o gyfleoedd mynediad. A rhaid i’r cynlluniau hyn cael eu hariannu yn ddigonol. Mae S4C yn croesawu’r cyfle sydd i weithio gyda Cymru Greadigol a phartneriaid sector sgrin a hyfforddiant i fynd i’r afael â hyn. Rydym ni hefyd yn datblygu cynllun peilot i ddod â mwy o brentisiaid i’r sector gan adeiladu ar waith sydd eisoes wedi digwydd ar gynyrchiadau S4C drwy gydweithio gyda Sgil Cymru.

**Sgiliau newydd**

Yn dilyn setliad ffi'r drwydded ym mis Ionawr 2022, mae gan S4C uchelgais i sefydlu uned ddigidol i ateb gofynion a helpu'r gwaith o ddatblygu sgiliau. Mae 'na gyfleoedd enfawr i ddatblygu talent mewn meysydd, fel gwyddor a datblygu data, sy'n gynyddol bwysig i S4C a chyfryngau Cymraeg. Mae'r rhain yn feysydd sgiliau cymharol newydd i S4C, ac maent hefyd yn rhai lle mae prinder sgiliau ar draws sawl diwydiant a sector - sy'n ei gwneud hi'n anodd recriwtio. Rydym yn teimlo bod potensial i weithio ar draws llywodraethau, gydag awdurdodau lleol yn rhan o raglenni datblygu creadigol sy'n gysylltiedig â chynlluniau Codi’r Gwasatad a ffrydiau ariannu eraill sy'n dod i'r amlwg a byddem yn croesawu camau pellach ar hyn. Mae cyfleoedd amlwg hefyd o ran gwireddu amcanion Cymraeg 2050 o weithlu dwyieithog a dylid gweithredu ar y rhain.

Bydd personoli cynnwys yn dod yn fwyfwy pwysig yn y ddarpariaeth o wasanaeth i'n cynulleidfaoedd. Bydd data'n helpu i gael cipolwg ar ymddygiad defnyddwyr ac yn helpu i ddarparu cynnwys sy'n berthnasol i'n cynulleidfaoedd presennol ac yn targedu cynulleidfaoedd newydd posibl. Ond mae angen y sylfaen sgiliau arnom yn y sector i'n galluogi i wireddu'r uchelgais hon.

Mae cangen fasnachol S4C wedi buddsoddi yn stiwdio Aria ar Ynys Môn gyda Rondo Media a chefnogaeth Cymru Greadigol. Mae Aria ar fin agor a bydd dau lwyfan stiwdio gwrthsain yn cynnig cyfanswm o 20,000 troedfedd sgwâr o ofod ffilmio. Mae sgiliau a thalent yn greiddiol i'r cynllun gyda'r bwriad o weithio mewn partneriaeth â cholegau, prifysgolion ac asiantaethau hyfforddi cyfryngau ledled Cymru a datblygu cyfleoedd gwaith llawrydd ar draws ystod o arbenigeddau. Bydd mwy o fanylion yn cael eu cyhoeddi maes o law.

**Beth fu effaith cymorth gan gyrff cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru, ac a oes angen cymorth pellach?**

Rydym yn croesawu creu'r asiantaeth Cymru Greadigol, a'r ffaith bod cynllun gweithredu sgiliau creadigol - fydd yn cwmpasu'r sectorau digidol a cherddoriaeth yn ogystal â'r sgrin - yn cael ei ddatblygu. Bydd dull integredig ledled Cymru fel hyn yn hanfodol i lwyddiant y diwydiannau creadigol yn y dyfodol. Byddem hefyd yn argymell gweithredu ar draws ffiniau fel y gall y gweithlu barhau i elwa o hyfforddiant a phrofiadau cynhyrchu drwy gynlluniau sy'n rhedeg dros y ffin. Mae arweinyddiaeth gan y sector yn hanfodol. Rhaid i'r ddarpariaeth sydd ar gael fod yn addas ar gyfer gofynion y sector, a rhaid wrth gynllun cenedlaethol ar gyfer Cymru wedi ei arwain gan y darlledwyr.

Mae S4C, BBC, a Channel 4 wedi cyd-fuddsoddi mewn prosiectau sgiliau a hyfforddiant sylweddol, gan gynnwys Cynllun Carlam Ffeithiol Cymru, RAD Cymru Wales (gyda BBC Cymru, Channel 4 a Chymru Greadigol) a Culture Connect Cymru (sydd hefyd wedi'i ariannu ar y cyd gan ITV Cymru Wales.) Mae prosiectau fel y rhain yn hanfodol i sicrhau pibell dalent medrus ac amrywiol iawn i'r sector yng Nghymru ac mae'n bwysig eu bod yn parhau.

Mae arloesi yn hanfodol i ddyfodol y sector yng Nghymru. Mae angen i'r ddwy lywodraeth, cyrff ariannu a sefydliadau sector weithio gyda'i gilydd i gefnogi arloesedd a ymchwil a datblygu i gefnogi'r diwydiannau creadigol ledled y DU a sicrhau twf ac arloesedd yn y dyfodol. Mae S4C wedi croesawu gwaith partneriaeth UKRI, Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau sydd wedi arwain at Raglen Clwstwr Diwydiannau Creadigol gwerth £80m i sbarduno arloesedd a thwf ar draws diwydiannau creadigol y DU. Mae S4C yn bartner yn rhaglen Clwstwr Creadigol Cymru sy'n cysylltu'r byd academaidd, diwydiant a llywodraethau. Drwy System Arloesi Sgrin a Labordy Arloesi Newyddion, nod Clwstwr yw creu a chyflwyno rhaglen Ymchwil a Datblygu a fydd yn galluogi creu clwstwr sgrin gwerth uchel. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o'r rhaglen ehangach, ac rydym yn croesawu hyn fel dull amlbleidiol i gefnogi datblygu sgiliau ac arloesi yng Nghymru.

**Casgliad**

Mae'r sector yng Nghymru yn gweld effaith Covid a phrinder gweithlu, a bydd chwyddiant a'r cynnydd mewn costau sydd i ddod yn ddi-os yn effeithio'r diwydiannau creadigol. Rydym yn gweld mwy o ffocws o ran cynrychiolaeth a chynhwysiant ond yn cydnabod bod lle i fynd nes y bydd y sector yn adlewyrchu Cymru heddiw. Bydd rhai blynyddoedd cyn i'r cynlluniau presennol gael effaith weladwy gan mai targedu a sbarduno diddordeb mewn rhai sydd yn yr ysgol ar y foment sydd raid.

Credwn bod cyfleoedd mawr o ran datblygu gweithlu gyda lefel uchel o sgiliau fydd yn gallu gweithio yn Gymraeg a Saesneg. Rhaid cael cynlluniau integredig, sydd yn cefnogi Cymraeg 2050 ac anghenion y sector er mwyn llwyddo ac rydym yn croesawu bod Cymru Greadigol bellach yn gweithio gyda'r darlledwyr i sicrhau hyn.

Delyth Jewell MS
Chair of the Senedd's Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

17th October 2022

Annwyl Chair,

I am writing to respond to the committee's invitation for stakeholders to outline the **challenges facing the creative industry workforce in Wales**.

Public Service Broadcasters are at the heart of the creative economy - boosting the television production sector, creating jobs and nurturing talent all across Wales and the rest of the UK. ITV spends more on new UK content, more with independent producers and more on programmes made outside London than any other commercial PSB. Together with the ITV Studios company Boom Cymru, we are a significant employer here in Wales with some 400 staff operating from various locations right across the country.

Whilst the pandemic showed the value of public service broadcasters, we also saw our revenue move in an opposite direction as **advertising spend fell** and TV production across the world was put on hold. The crisis has hastened trends we have long observed with the likes of Google, Facebook and Amazon further strengthening their competitive position in advertising and other markets versus national players. As the UK Government prepares to introduce the forthcoming Media Bill, there is a clear consensus for an urgent new public service media settlement to maintain prominence and sustainability for content that makes a very important contribution to the cultural, economic and political life of Wales. This is particularly important in the context of the expiry of ITV's PSB licences in 2024 which is now not long away.

The pandemic had a fundamental impact on **television productions**, and the increase in delayed production activity post covid has seen an unprecedented demand for a skilled workforce, leading to more competition and an increase in costs and salaries.

We are also facing a shortage of **multi-skilled freelancers** who can help with multiple aspects of a production, with many of them specialists in one area of the industry. The pandemic disproportionately affected freelancers, who make up an estimated half the cultural sector workforce in Wales. Many freelancers have still not fully recovered from the financial and job losses in the industry, and have increased their fees and costs as a result of this. The pandemic highlighted the lack of job security and employment support for freelancers, resulting in an appetite for longer term contracts, more stability and employee benefits.

As an industry, we rely on a broad range of highly-developed **skills**, particularly in jobs that need a mix of creative and technical skills. We would like to see further support from public bodies to address the skills shortage in the sector, with the expansion of traineeships, internships and work placement programmes. Vocational training in a professional setting is vital to tackle the issue, and closer links between formal education and the industry is urgently needed.

In terms of our own workforce, the pandemic has greatly impacted **working life** and it's unsurprising that many employees have seen the benefits of flexible working during this difficult period. ITV Cymru Wales is proud to have introduced Smart Working back in 2019, allowing team members to work remotely for almost all tasks apart from those directly involved with gallery production of our studio based programmes. Smarter Working has continued to accelerate and develop, and it has improved employee engagement and well-being in a variety of ways.

Prior to the pandemic, a growing trend towards **digital technology** was already changing the way we worked. The outbreak and the subsequent lockdown has accelerated this shift to digital technology, and ITV's strategy to meet the challenge presented by a rapidly evolving market is to become a digitally led media company that creates and delivers brilliant content to audiences when and how they want it.

We have invested heavily in digital technologies and increasingly create news and current affairs content specifically for digital audiences. Our news website www.itv.com/wales is delivering significant growth for trusted, impartial news about Wales that can be accessed by audiences anywhere, anytime on mobile devices. In 2020, page views doubled to 20 million, and in June 2022 we achieved 1.74 million monthly page views on our website. We are also very proud to be producing current affairs programming and innovative digital content for S4C's platforms.

Whilst ITV is doing everything in its power to modernise its business for the online era, we also need the **policy framework to move at pace** to recognise the new realities and market power of global platform operators. The increase in our digital output and services has highlighted the digital skills shortage in the sector and workforce, and we are facing difficulties in filling vacancies that require digital competency.

Fel y gwyddoch, mater i Gyngor Caerdydd ei ystyried fel perchennog yr adeilad ac unig gyllidwr a gweithredwr y lleoliad yw'r penderfyniad ar ddyfodol Neuadd Dewi Sant. Felly, roedd yn peri penbleth i mi ddarllen yr honiadau yn eich llythyr gan gyfeirio at gyllid Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC) ar gyfer y Neuadd. Hyd y gwn i, nid yw Llywodraeth Cymru erioed wedi darparu cyllid refeniw na chyfalaf ar gyfer y Neuadd a, heblaw am grant bach gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol tuag at waith yr Ymddiriedolaeth Actifyddion Artistig, nid oes unrhyw gymorth refeniw wedi'i ddarparu gan CCC ers 2014 pan dynnwyd statws Sefydliad Arian Refeniw y lleoliad yn ôl, ac ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn talu i gadw Neuadd Dewi Sant ar agor.

Mae'n bwysig bod sylwadau cyhoeddus am y cynigion yn cael eu llywio gan ffeithiau yn hytrach na rhagdybiaethau. O ganlyniad, mae'r Cyngor hefyd yn pryderu am yr edefyn a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar, sydd eto'n cynnwys honiadau gwallus am y broses sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd. Yn fy marn i, gellid ystyried bod sylwadau o'r fath yn peryglu gwrthrychedd a niwtraliaeth wleidyddol eich pwyllgor yn ddifrifol.

Mae'n anghywir datgan bod y broses yn cael ei rhuthro a bod ganddi ddiffyg tryloywder. Mae'r Cyngor wedi rhybuddio Llywodraeth Cymru a CCC o dro i dro dros y degawd diwethaf am ddirywiad yr adeilad. Mae'r Cyngor hefyd wedi tynnu sylw'n gyson at y risg ariannol mai trethdalwyr Caerdydd fydd yn ysgwyddo costau Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru'n llwyr. Un thema gyson yn y trafodaethau hyn yw nad oedd modd fforddio swm y buddsoddiad sydd ei angen yn Neuadd Dewi Sant o fewn amlen fforddiadwyedd CCC. Mae'r Cyngor wedi tynnu sylw'n gyson yn gyhoeddus at yr angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU
The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

asedau yn Neuadd Dewi Sant, gyda'r Cabinet yn awdurdodi swyddogion i chwilio am ddatrysiadau amgen yn 2019 cyn y pandemig, ac eto yn 2021.

Fel y'i nodwyd yn gyhoeddus, daeth proses deialog gystadleuol fanwl i ben yn aflwyddiannus heb i unrhyw gwmni fod yn barod i ymgymryd â'r atebolrwydd cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad, er i'r broses ddenu cryn ddiddordeb gan gynigwyr. O ran sylwadau'r Prif Weinidog bod sawl cwmni'n rhan o hyn, ni allaf ond tybio ei fod yn cyfeirio at y broses gaffael dan sylw. Tan gynnig AMG, ni ddaeth unrhyw ddatrysiad yn agos at unioni cyflwr gwael y Neuadd.

Nid yw'n gywir chwaith honni bod y Cyngor wedi methu ag ymgysylltu â phartneriaid ynglŷn â chynnig AMG. Yng nghyd-destun arian cyhoeddus prin, mae cynnig y cwmni'n rhoi llawer mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr cynradd y Neuadd, gan gynnwys BBC NOW, Cerddorfa WNO, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Prifysgol Caerdydd, Ffilharmonig Caerdydd, Proms Cymru a chystadleuaeth Canwr y Byd Caerdydd y BBC, ac mae'r sefydliadau hyn wedi bod yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda ni a'r cwmni i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu o fewn y trefniadau newydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymgysylltu'n adeiladol â Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd ynglŷn â'r cynigion a bydd yn parhau i wneud hynny wrth i'r cynnig ddatblygu dros y misoedd nesaf.

Digon yw dweud bod y Cyngor yn hyderus y bydd model yr Academi yn gwella cynnig cerddoriaeth Caerdydd yn sylweddol, gyda mesurau diogelu cytundebol yn cael eu cynnig ynglŷn â pharhad y rhaglen glasurol, mynediad parhaus i sefydliadau cymunedol a mesurau i ddiogelu acwsteg unigryw'r Neuadd. Credwn y bydd y rhaglen newydd, a fydd yn darparu cyfuniad o gyngherddau roc, pop a chlasurol, yn cael ei chroesawu gan y cyhoedd ehangach ledled De Cymru a'r tu hwnt. Yn hyn o beth, mae'n werth tanlinellu i ba raddau y mae cynnig AMG yn deillio o'r amgylchiadau unigryw sy'n ymwneud â'i ymrwymiad hirdymor i Gaerdydd a'r buddsoddiad o £200 miliwn mewn sefydlu arena dan do newydd yng Nglanfa'r Iwerydd.

Mae'n debygol y bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan fy Nghabinet ym mis Mawrth 2023 yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar gynigion arbedion cyllideb y Cyngor a chyhoeddi Hysbysiad VEAT a fydd yn galluogi'r farchnad i adolygu'r cynnig manwl a herio'r dull arfaethedig. Byddwn yn argymell y bydd angen dod â'r broses hon i ben cyn i'r Pwyllgor ruthro i ddod i gasgliadau am y cynigion sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor ar hyn o bryd.

Er tryloywder a sicrwydd, rwy'n barod i gynnig brîff cyfrinachol i chi, fel Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant y Senedd, ar yr amod nad yw'r wybodaeth a ddatgelir yn cael ei rhannu'n ehangach.

Yn gywir,



**Y CYNGHORYDD HUW THOMAS**
**ARWEINYDD**
**CYNGOR CAERDYDD**

Eitem 3.11

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales

12 Rhagfyr 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr ar 21 Tachwedd yn ymwneud â sut mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi a hyrwyddo seiberddiogelwch a'r diwydiant yn ehangach.

Fel y gwnaethoch gyfeirio yn eich llythyr, mae seiber yn faes sy'n newid yn gyflym gyda datblygiadau ac arloesi newydd cyson. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd seiberddiogelwch a'i fod yn rhychwantu sawl maes, gan greu 'eco-system' sy'n rhoi cyfle i ddod â manteision i'n dinasyddion, gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi. Am y rheswm hwn, fel yr amlinellir yn ein Strategaeth Ddigidol i Gymru rydym yn datblygu Cynllun Gweithredu Seiber i Gymru fydd yn creu datganiad cydlynol o uchelgais a gweithgarwch ar seiber yng Nghymru.

Mae seiber eisoes yn gryfder mawr yng Nghymru. Mae gennym un o'r ecosystemau seiber mwyaf yn y DU, ac un o'r cryfaf yn Ewrop diolch i'n partneriaethau rhwng diwydiant, y byd academaidd a'r llywodraeth. Fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn nodi bod seiber yn un o dair o ganolfannau rhagoriaeth Cymru. Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Ryngwladol mae '*Perthnasoedd a rhwydweithiau rhanbarthol sy'n cael blaenoriaeth 2020 i 2025'*, hefyd yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio seiber i gryfhau ein cysylltiadau â rhanbarthau sydd â synergeddau gyda'n gwaith.

O ran yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu, rydym yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno ar gamau gweithredu. Fel yr ydych yn tynnu sylw ato, mae atal, canfod ac ymchwilio i droseddau yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl. Mae fy nghyfrifoldebau fel y Prif Weinidog yn cynnwys diogelwch cenedlaethol, gan gynnwys gwrth-

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

derfysgaeth a seiberddiogelwch ac rydym yn cymryd camau hanfodol i leihau'r risgiau seiber i Gymru. Fel y cyhoeddais yn CYBERUK22, mae gwaith yn mynd rhagddo i gaffael a sefydlu Canolfan Gweithrediadau Seiberddiogelwch (CymruSOC) ar gyfer 18 Awdurdod Lleol Cymru a 3 Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd CymruSOC yn dwyn ynghyd y gwasanaethau hyn gyda'r Llywodraeth, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC), ac arbenigwr technegol, gan alluogi lefel o wybodaeth a rhannu adnoddau a fydd yn caniatáu dull 'Amddiffyn fel Un' cryf.

Gwnaethoch holi pa waith rydym wedi'i wneud i uwchsgilio ein gweithlu ar risg gwirioneddol, llywodraethu a sgiliau polisïau seiberddiogelwch. Mae ein Strategaeth Ddigidol i Gymru yn amlinellu ein nod o greu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd. Rydym yn gweld sgiliau seiber yn rhan bwysig o gyflawni'r nod hwn ac wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Seiber, rydym yn edrych ar sut i ddefnyddio manteision ein hymyriadau lluosog sy'n bodoli eisoes, i ddenu a datblygu'r sgiliau seiber sydd eu hangen arnom fel cenedl drwy feithrin talent seiber o oedran ysgol hyd at y gweithlu.

O safbwynt y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn gweithio'n agos â'r NCSC i ddarparu arweinyddiaeth i sefydliadau ledled Cymru, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, i ddefnyddio a chymhwyso cyngor ac arweiniad yr NCSC. Bydd hyn yn helpu i gadw ein dinasyddion yn ddiogel a'u diogelu ar-lein ac, yn hollbwysig, sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn ddiogel a bod pobl yn ymddiried ynddynt. Rydym yn gweithio gyda'n gwasanaethau cyhoeddus i annog diwylliant sefydliadol lle mae seiber yn fusnes i bawb, o arweinyddion i'r rheng flaen. Rydym wedi bod yn gweithio gyda byrddau gweithredol ar draws y sector cyhoeddus, drwy ein benthyciad allanol unigryw o swyddog i'r NCSC, i'w hysbysu o'u cyfrifoldebau seiberddiogelwch a gwydnwch. Yn ogystal â'r gwaith hwn, rydym yn darparu fersiwn wedi'i hwyluso o fodel Ymarferiad Blwch NCSC i gyrff sector cyhoeddus Cymru ac rydym yn cynnal cynllun peilot i feithrin mwy o ddilyniant o Fframwaith Asesu Seiber (CAF) NCSC.

Rydym yn darparu tystysgrif NCSC Cyber Essentials/Essentials + i dros 20% o gwmnïau cyfreithiol o Gymru a bydd y model hwn yn cael ei wylio'n agos er mwyn canfod a fyddai'n bosibl ei ddefnyddio mewn sectorau eraill yng Nghymru.

I'r rhai o oedran ysgol, efallai eu bod yn ymwybodol o'r rhaglen CyberFirst ehangach sydd wedi'i chynllunio i nodi a meithrin ystod amrywiol o bobl ifanc dalentog i yrfa ym maes seiberddiogelwch. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r NCSC i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd seiber i ddysgwyr ac ysgolion yng Nghymru. Yn 2020, gwnaethom gefnogi'r NCSC i dreialu'r cynllun Ysgolion/colegau CyberFirst. Mae ysgolion a cholegau o bob cwr o Gymru wedi cael cydnabyddiaeth CyberFirst ar lefelau Aur, Arian ac Efydd.

Drwy ein gwaith gyda'r NCSC rydym yn awr wedi sicrhau cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglen CyberFirst Ysgolion ledled y wlad yn dilyn darpariaeth gref mewn ardaloedd braenaru yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei weithredu gan y Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol (NDEC) mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru. Bydd y fenter ddigidol / codio hon sy'n edrych ar wella'r sgiliau TG seiberddiogelwch i ddysgwyr yn lansio yn 2023 ac yn cael ei darparu mewn ysgolion ar y cyd â Technocamps.

Mae gan Gymru arlwy addysg uwch gref gyda phartneriaethau rhwng prifysgolion a diwydiant i ddatblygu myfyrwyr ar y llwybr tuag at yrfa ym maes seiber. Mae cynnig mentrau achrededig, o safon fyd-eang a ffurfio partneriaeth gyda diwydiant yn golygu bod Cymru'n lle deniadol i fyfyrwyr astudio a dilyn llwybr i yrfa ym maes seiber.

Mae hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan brentisiaethau Seiberddiogelwch yng Nghymru sy'n ymateb i brinder sgiliau rhanbarthol a chenedlaethol ac yn helpu i sbarduno ymwybyddiaeth a diddordeb yn y sector.

Mae gennym ddarpariaeth TG a phrentisiaethau digidol helaeth yng Nghymru, gyda naw rhaglen is-radd (lefelau 2, 3, 4 a 5) a thri fframwaith prentisiaeth lefel gradd, gan gynnwys Prentisiaeth Gradd Seiberddiogelwch.

I uwchsgilio oedolion, mae ein rhaglen cyflogadwyedd i oedolion ReAct + yn cynnig cefnogaeth unigol i oedolion di-waith 18+ a allai gynnwys pobl sy'n gadael y coleg a'r brifysgol sydd wedi astudio seiberddiogelwch. Gall hyn helpu i roi hwb i gyflogadwyedd pobl yn y diwydiant seiberddiogelwch ar ôl cymhwyso.


Hefyd, cefnogir y Ganolfan Arloesedd Seiber gan ein buddsoddiad o £3 miliwn a wnaed gan Lywodraeth Cymru dros 2 flynedd, gyda £3 miliwn o gyllid ar y cyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a £3.5 miliwn o gyllid cyfatebol mewn nwyddau gan bartneriaid consortiwm. Bydd hyn yn cefnogi yr agenda sgiliau seiber yn helaeth a chyflogadwyedd i Gymru gyda'i nod o hyfforddi mwy na 1,500 o unigolion seiber-fedrus a datblygu'r sector seiberddiogelwch yng Nghymru dros 50% erbyn 2030. Mae'r Ganolfan yn dod â phartneriaid ym myd diwydiant, y llywodraeth, amddiffyn ac academaidd ynghyd i ddatblygu sector seiberddiogelwch Cymru, gan alluogi Cymru i fanteisio ar y twf disgwyliedig yn y sector yn y DU, ac yn fyd-eang, drwy fuddsoddi mewn dull cydgysylltiedig o sgiliau, arloesi a chreu mentrau newydd. Bydd y fenter hon yn ein cefnogi i sicrhau bod gennym gronfa o dalent yn barod i ateb galw sector sy'n tyfu a rhoi cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau ar gyfer sector a allai gynnig gyrfa gydol oes. Bydd dull y Ganolfan o fynd i'r afael â heriau arloesi o dan arweiniad y farchnad a sbarduno datblygiad datrysiadau newydd, arloesol yn gyflym yn helpu i gefnogi a darparu cyfleoedd ym maes seiber ac mae hon yn un rhan o ecosystem seiber gref sy’n datblygu yng Nghymru.

Gwnaethoch hefyd holi a yw Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau i annog mwy o fenywod i'r sector seiber. Rydym yn ymwybodol mai un feirniadaeth drwy’r llwybr gyrfa seiber yw amrywiaeth a phwysigrwydd datblygu gweithlu amrywiol, sy'n adlewyrchu ein cymdeithas yng Nghymru. Rydym yn cefnogi, drwy ymgysylltu â'n sianeli cyfathrebu ag ysgolion, Cystadleuaeth Merched CyberFirst blynyddol yr NCSC. Gall ysgolion gystadlu gyda thimau o ferched Blwyddyn 8 mewn heriau ar thema seiber sydd wedi'u cynllunio i ysgogi diddordeb mewn gyrfaoedd technoleg a chynyddu'r nifer o fyfyrwyr benywaidd sy'n astudio pynciau TGAU Cyfrifiadura. Mae gan Gymru hefyd un o'r 'Menywod mewn Clystyrau Seiber' mwyaf gweithgar sy'n ymwneud yn rheolaidd â chynadleddau'r DU ac Ewrop i drafod y pwnc a'i waith yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod y gellir gwneud mwy ynghylch amrywiaeth y gweithlu seiber ac annog menywod i'r sector, ac mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Gweithredu Seiber.

Yn olaf, mae eich llythyr yn gofyn am werthu cyfran Nexperia BV yn Nexperia Newport Limited. Ein blaenoriaeth ar hyn o bryd yw diogelu dyfodol y cannoedd o swyddi hynod fedrus yng Nghasnewydd. Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i sicrhau datblygiad parhaus ein clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd yn ne Ddwyrain Cymru a'r rôl y mae'n ei chwarae ar raddfa ehangach yn y DU. Yng ngoleuni penderfyniad Llywodraeth y DU, mae gweinidogion y DU bellach yn amlwg yn gweld y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd yng Nghymru fel ased cenedlaethol strategol yn ogystal â’i fod yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Rydym felly'n galw ar Lywodraeth y DU i fuddsoddi yn y sector i ddiogelu ei ddyfodol. Nid oes gennym gyfrifoldebau diogelwch cenedlaethol, ac nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y rhesymau pam y daeth llywodraeth y DU i'r casgliad a wnaeth. Yr hyn rwy'n gredu sydd wedi dod yn llawer cliriach yn sgil y penderfyniad yw nad

yw gwerthiant y cwmni yn mynd i ddigwydd yn gyflym. Mae'r buddsoddiad fydd ei angen i symud Nexperia - neu'r olynydd i Nexperia - o waith gweithgynhyrchu sglodynod ar gyfer cwsmeriaid Nexperia i un sy'n cynhyrchu lled-ddargludyddion eraill i berchennog newydd hefyd yn debygol o gymryd cannoedd o filiynau o bunnau. Mae hwn yn benderfyniad canlyniadol iawn, a BEIS fydd nawr yn gorfod helpu i ddelio â chanlyniadau'r penderfyniad hwnnw. Mae mater Nexperia a sut y mae symud i berchnogaeth newydd i gael ei gefnogi yn fater i lywodraeth y DU rwy'n credu gan mai hwy wnaeth y penderfyniad yn y lle cyntaf.



**MARK DRAKEFORD**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/3715/22

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
SeneddDiwylliant@senedd.cymru

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Delyth

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol am ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2), a osodwyd gerbron y Senedd ar 28 Medi 2022 mewn perthynas â Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU.

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 5 Rhagfyr, sy'n nodi bod yr Aelodau yn cytuno bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 156-158 (cymalau 151-152 fel y'u cyflwynwyd) a chymal 162 Troseddau cyfathrebu (cymal 155 fel y'i cyflwynwyd).

Nodaf hefyd yr argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor, sef bod angen cydsyniad yn eu barn hwy ar gyfer cymal 165 (cymal 159 fel y'i cyflwynwyd) ac Atodlen 14. Mae dadansoddiad cyfreithiol pellach gan fy swyddogion yn cadarnhau bod angen cydsyniad ac o'r herwydd bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol arall (Memorandwm Rhif 4) yn cael ei gyflwyno.

Hoffwn hefyd ddwyn i'ch sylw bod y 'drosedd gyfathrebu niweidiol' a nodwyd yng nghymal 151 wedi'i hepgor o'r Bil yn y Cyfnod Adrodd ar 5 Rhagfyr, nodir hyn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 4).

Yn gywir,

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Y Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

22 Rhagfyr 2022

Annwyl Delyth,

**Cau Corgi Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Tachwedd yn gofyn nifer o gwestiynau ynghylch cau Corgi Cymru. Gweler fy ymatebion i'r cwestiynau hyn isod.

*Hyd yma, faint o'r grant gafodd ei wario gan Newsquest ar Corgi Cymru?*

Caiff y cyllid a neilltuir i ariannu gwasanaeth newyddion digidol Cymraeg drwy Gyngor Llyfrau Cymru ei reoli ar ffurf contract caffael, ac ni chaiff ei ddyfarnu ar ffurf grant.

Dyfarnwyd swm o £400,000 i Corgi Cymru dros gyfnod o bedair blynedd drwy'r contract gwasanaeth newyddion digidol Cymraeg, ond caiff y cyllid drwy'r contract ei dalu drwy ôl-daliadau yn seiliedig ar wariant. Cafodd swm o £60,000 ei dalu i Corgi Cymru rhwng mis Ebrill a mis Hydref 2022 i ddarparu'r gwasanaeth newyddion digidol Cymraeg yn ystod y cyfnod hwnnw.

*Faint o'r grant sydd wedi'i adennill?*

Ni chaiff y £60,000 ei adennill. Cafodd yr arian hwn ei dalu mewn rhandaliadau misol i Corgi Cymru am wasanaethau a ddarparwyd. Defnyddiwyd yr arian i dalu costau cyflog staff a gweithwyr llawrydd am ddarparu'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod pan oedd yn rhedeg.

Caiff y £340,000 nas gwariwyd sy'n weddill o'r contract £400,000 gwreiddiol ei ddefnyddio i gaffael contract gwasanaeth newyddion digidol Cymraeg newydd ar gyfer gweddill cyfnod y tendr drwy ymarfer tendro agored a chystadleuol.

*Os oes unrhyw ran o'r grant heb ei adennill, a fyddech cystal ag amlinellu pam hynny?*

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y nodwyd uchod, cafodd y swm o £60,000 ei dalu i Corgi Cymru i dalu staff a gweithwyr llawrydd am ddarparu'r gwasanaeth. Nid yw Cyngor Llyfrau Cymru wedi gofyn i gyflogau gael eu had-dalu.

*Pa lefel o ddiwydrwydd dyladwy a ymgymerir gan Gyngor Llyfrau Cymru o ran sefydlogrwydd ariannol derbynwyr grantiau a'u gallu i gyflawni'r ymrwymiadau a wnânt fel rhan o gais am grant?*

Roedd Cyngor Llyfrau Cymru wedi ymgymryd â phrosesau diwydrwydd dyladwy ariannol safonol ar gyfer caffael cyn dyfarnu contractau masnachfraint i Corgi Cymru a Golwg360 ym mis Tachwedd 2021. Gwnaed yr asesiad hwn yng nghyd-destun yr amgylchedd economaidd a'r amgylchiadau a welwyd bryd hynny.

*Pa adolygiad y mae Llywodraeth Cymru neu Gyngor Llyfrau Cymru wedi'i gynnal yn dilyn y mater hwn gyda Corgi Cymru, a pha wersi a ddysgwyd? Byddem yn ddiolchgar o gael gweld copi o'r adolygiad hwn os yw wedi'i gynnal. Os nad yw wedi'i gynnal, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pam nad yw hyn wedi digwydd.*

Cynhaliwyd trafodaethau â Chyngor Llyfrau Cymru ynghylch y prosesau a ddefnyddiwyd wrth ddyfarnu'r contract gwasanaeth newyddion digidol Cymraeg. Gwnaed hyn drwy ymarfer tendro agored cystadleuol, a dyfarnwyd contractau yn dilyn cyfweliadau ac asesiadau a gynhaliwyd gan banel annibynnol o arbenigwyr yn unol â'r meini prawf a nodwyd yn y canllawiau tendro. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y broses gaffael yr ymgymerwyd â hi gan Gyngor Llyfrau Cymru yn gadarn, yn agored ac yn deg, a bod y rhesymau dros gau'r gwasanaeth yn ymwneud â ffactorau allanol a newidiadau i amgylchiadau sydd y tu allan i reolaeth Cyngor Llyfrau Cymru a Newsquest. Felly, ni fwriedir cynnal adolygiad ffurfiol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi pa mor bwysig yw sicrhau lluosogrwydd yn sector y cyfryngau. Rydym wedi ymrwymo i helpu i hwyluso amgylchedd newyddion cadarn, ac rydym yn bwrw ymlaen â nifer o gamau i gefnogi cynaliadwyedd parhaus y sector newyddiaduraeth yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn edrych ar bwysigrwydd didueddrwydd y cyfryngau o safbwynt uniondeb llywodraethol a newyddiadurol, a'r angen i ystyried cymysgedd cyfartal o ymyriadau uniongyrchol a chymorth lled braich, fel sy'n briodol.

Cynhelir y gwaith hwn ar lefel leol a chenedlaethol, ar draws nifer o wahanol blatfformau darparu a wahanol fathau o gyfryngau, ac mae'n canolbwyntio ar gynnal y sector presennol ar y cyd â datblygu opsiynau i wella llwybrau i newydd-ddyfodiaid i'r sector o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Rydym yn deall bod angen mewnbwn gan arbenigwyr yn y gwaith hwn, ac yn parhau i gydweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o'r sector. Mae hyn yn cynnwys Gweithgor Newyddiaduraeth er Bydd y Cyhoedd Cymru lle rydym yn gweithio gyda chroestoriad o gynrychiolwyr o ddiwydiant, y byd academaidd, yr undebau llafur a sefydliadau hyperleol i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru. Mae'r Gweithgor wedi tynnu sylw at heriau sy'n wynebu'r sector ac wedi gwneud sylwadau arnynt, ac wedi darparu cyfarwyddyd ar feysydd gweithredu posibl. Mae wedi cyfrannu at gyflawni'r Gronfa Newyddiaduraeth beilot sydd wedi darparu cymorth i newyddiaduraeth leol a hyperleol bresennol yn ogystal â chefnogi newydd-ddyfodiaid i'r farchnad. Mae'r Gweithgor hefyd wedi rhoi cyngor a chanllawiau ar ddefnyddio'r gyllideb cyfryngau a nodwyd yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru a, thrwy drafodaethau, mae wedi meithrin perthnasau gwaith agosach ym maes cyfathrebu'r sector cyhoeddus er mwyn helpu i sicrhau bod mentrau hyperleol yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gyhoeddi hysbysiadau awdurdodau lleol a hysbysiadau cyhoeddus. Bydd y Gweithgor yn darparu argymhellion ar gamau i'w

cymryd yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r sector yng Nghymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae gan y gwasanaeth newyddion digidol Cymraeg rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau lluosogrwydd yn sector y cyfryngau yng Nghymru. Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi gwahodd datganiadau o ddiddordeb mewn gwasanaeth newydd yn dilyn cau Corgi Cymru.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a’r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
—
Economy, Trade, and Rural Affairs Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

21 Rhagfyr 2022

Annwyl Delyth,

Ail gyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn darparu ar gyfer sefydlu Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE fel rhan o'i strwythurau llywodraethu. Mae'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol yn chwarae rhan bwysig o ran goruchwylio gweithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ac unrhyw gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Dyma'r unig gorff a all ddwyn y Cyngor Partneriaeth i gyfrif, sef y corff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd a Gweinidogion Llywodraeth y DU.

Buom yn cynrychioli'r Senedd yn ail gyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE ar 7-8 Tachwedd. Yn ystod y cyfarfod hwn, trafodwyd effaith Brexit ar artistiaid teithiol a bu modd inni amlygu'r gwaith pwysig y mae eich Pwyllgor wedi'i wneud ar y mater hwn. Roeddem felly am dynnu eich sylw at ein hadroddiad byr ar ganlyniad y trafodaethau ac yn arbennig y casgliadau ynghylch artistiaid teithiol.

Gwnaeth ein hadroddiad nifer o argymhellion hefyd ar sut y gallai'r Senedd fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ymgysylltu a ddaw yn sgil y Cynulliad Partneriaeth Seneddol. Maent yn cynnwys:


- darparu adroddiadau ar faterion o ddiddordeb i bwyllgorau eraill y Senedd megis y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; a
- gweithio gyda phwyllgorau'r Senedd i ddatblygu cysylltiadau anffurfiol ag aelodau o ddirprwyaethau'r DU a'r UE i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

Rydym yn gobeithio bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn y flwyddyn newydd cyn cyfarfod nesaf y Cynulliad Partneriaeth Seneddol ym mis Mai 2023, a gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i'ch Pwyllgor yn y cyfamser.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad



Luke Fletcher
Aelod
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Department for Digital, Culture, Media & Sport

Julia Lopez MP
Minister of State for Media, Data and Digital Infrastructure
1st Floor
100 Parliament Street
London SW1A 2BQ

E: enquiries@dcms.gov.uk

www.gov.uk/dcms

20 December 2022

INT2022/16431/DC

Delyth Jewell MS
Chair
Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee

SeneddCulture@senedd.wales

Dear Delyth,

Thank you for your letter of 22 November setting out the importance of the Media Bill. The Secretary of State for Culture has asked me to respond on her behalf.

I agree that the measures proposed for the Media Bill will be critical to the Welsh broadcasting and creative economy, ensuring it can thrive in the face of rapid technological change. The Bill will reform decades-old laws to turbocharge the growth potential of our world-leading public service broadcasters (PSBs), which develop talent and skills, drive growth in the creative industries across the UK and deliver distinctive, diverse British content. I look forward to continuing engagement with ITV, S4C and our other PSBs to deliver these measures.

I want to reassure you that I recognise the urgency of the legislation, including to the Welsh broadcasting industry. The Government is committed to the future of Welsh language broadcasting and supports the Welsh Government's ambition to reach the target of one million people in Wales being able to speak Welsh by 2050. We remain committed to supporting Welsh institutions such as S4C to achieve this ambition and are proud of the valuable cultural, societal and economic service S4C provides, across Wales and beyond, to Welsh-speaking audiences and viewers interested in the Welsh language and culture. I recently saw this first hand when I visited Cardiff in November and met Siân Doyle, Chief Executive at S4C, and Rhodri Williams, S4C Chair, to watch a rehearsal of CiC Byw, created by Boom production for S4C. In the context of changes to the broadcasting ecosystem there is a need to update legislation to enable S4C to adapt to rapid technological and market change, to maximise the social benefits to Welsh audiences, and to deliver increased value for money.

We received Ofcom's report on the C3 and C5 licence renewals earlier in the Summer. Officials continue to review the report and are engaging with licence holders. The Secretary of State will be responding to Ofcom's report in due course and we recognise the interaction between the licence renewal process and the progress of the Media Bill.

Channel 4 is a great UK success story and, in a rapidly changing media landscape, the Government wants it to thrive in the long-term while maintaining its distinctiveness. The Secretary of State is reviewing the business case for the privatisation of Channel 4 and will set out more detail in due course.

Thank you for your invitation to attend a meeting of the Committee. Unfortunately, both myself and the Secretary of State are unable to accept the invitation at this time due to exceptionally busy diaries. We do, however, look forward to a continued dialogue as we progress this important legislation.

With best wishes,

Julia

Julia Lopez MP
**Minister of State**
**Minister for Media, Data and Digital Infrastructure**



POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

12 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

Cyllideb Ddrafft 2023-24

Ysgrifennais atoch cyn toriad yr haf mewn perthynas â gwaith ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid cyn y Gyllideb a dadl y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb sydd i ddod. Ysgrifennaf yn awr i roi diweddariad pellach ar y gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

## Ymgynghoriad

Ar ddechrau tymor yr hydref, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad i geisio gwybodaeth am y Gyllideb Ddrafft ar ran yr holl Bwyllgorau. Cawsom 29 o ymatebion ac mae'r rhain ar gael ar wefan y Pwyllgor Cyllid.

## Amserlen

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth wedi gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni oherwydd Datganiad Hydref y DU a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi'r fersiynau amlinellol a manwl o'r Gyllideb Ddrafft gyda'i gilydd ar 13 Rhagfyr. Bydd y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr am sesiwn dystiolaeth gychwynnol ar y Gyllideb Ddrafft.

## Ffocws y Gyllideb

Mae Cyllideb eleni yn debygol o ganolbwyntio ar yr argyfwng costau byw, costau ynni cynyddol a chwyddiant uchel. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr ydym am i'r gwaith craffu ganolbwyntio arnynt, sef:

- pa effaith y mae pwysau chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau refeniw a chyfalaf a sut mae hyn wedi newid fforddiadwyedd cynlluniau blaenorol;
- sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu;
- i ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;
- sut mae dyraniadau cyllideb yn cefnogi'r dyheadau yng nghynllun Sero Net Cymru;
- polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac effaith argyfwng costau byw ac anghydraddoldeb rhywiol;
- y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau (gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);
- cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a gweddnewid gwasanaethau;
- sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;
- sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca;
- cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl cyfnod pontio'r UE;
- beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'ailgodi'n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Yn ogystal, nodwyd y meysydd canlynol fel blaenoriaethau yn ystod digwyddiadau rhanddeiliaid ac ymgysylltu'r Pwyllgor yn ystod tymor yr haf:

- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi – beth yw'r blaenoriaethau a pha mor addas yw'r cymorth presennol o ystyried cyfran y bobl sy'n byw mewn tlodi cymharol o ran incwm, yng Nghymru?

- Rhestrau aros y GIG – a oes tystiolaeth o gynllun cadarn, wedi'i ategu gan adnoddau digonol, i fynd i'r afael â'r nifer uchaf erioed o bobl yng Nghymru sydd ar restrau aros ar gyfer triniaeth gan y GIG sydd wedi'i chynllunio neu nad yw'n fater brys, a yw'n amlwg bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru?

- plant a phobl ifanc – a yw digon o arian yn cael ei ddarparu a'i gyfeirio'n briodol i gefnogi plant a phobl ifanc y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu haddysg, eu datblygiad, eu hiechyd meddwl a'u llesiant?

- materion yn ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y GIG, gofal cymdeithasol, addysg bellach ac uwch, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys sut y gallant wneud arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau.

- yr economi a seilwaith – a yw'r cynlluniau cywir yn cael eu blaenoriaethu i gefnogi busnesau ac economi Cymru, sut mae Llywodraeth Cymru yn galluogi Cymru i ffynnu ar ôl COVID-19 a Brexit?

- sut y dylai'r Gyllideb fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig a datblygu economïau gwledig?

- creu Cymru wyrddach – a yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i symud i economi wyrddach yn glir ac a oes digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau? A oes angen diwygio'r cynlluniau hyn i adlewyrchu'r brys cynyddol i leihau'r ddibyniaeth ar nwy ac olew o ystyried y rhyfel yn Wcráin?

- y trydydd sector a gwirfoddoli – sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi sefydliadau'r trydydd sector wrth iddynt fynd i'r afael â heriau ariannol a galw cynyddol am rai gwasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig?

- trethiant - sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau codi trethi a benthyca ac a ydych yn teimlo y dylid ehangu'r pwerau hyn, eu cadw'r un fath neu eu lleihau?

Gobeithiwn y bydd yr ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a byddwn yn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws ar gyfer eich gwaith craffu ar y gyllideb.

## Protocol Proses y Gyllideb

Fel y crybwyllwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol y bu oedi, sydd wedi arwain at gyfnodau craffu cwtogedig i'r Senedd. Mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn, felly, ei bod yn bryd adolygu Protocol Proses y Gyllideb a gyflwynwyd yn 2017. Mae gan y protocol lawer o fanteision, ond credwn fod angen ei ddiweddaru i

adlewyrchu arferion sefydledig a phrofiadau diweddar, yn enwedig y duedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i Lywodraeth Cymru ohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft oherwydd amseriad digwyddiadau cyllidol y DU. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn ddiweddar yn cynnig newidiadau yn y meysydd a ganlyn:

- ffurfioli gwaith ymgysylltu cyn y Gyllideb a gwaith craffu'r Pwyllgor; a
- darparu mwy o sicrwydd mewn perthynas ag amseriad y Gyllideb Ddrafft.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi mynegi parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn, ac rydym yn gobeithio y bydd yn barnu bod y newidiadau hyn yn gymesur. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gadeiryddion y Pwyllgorau ar y mater hwn unwaith y byddaf wedi cael ymateb y Gweinidog. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gobeithio y gellir mynd i'r afael â'r newidiadau hyn a'u rhoi ar waith cyn cylch cyllideb 2024-25.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu ag Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6372 neu yn seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

09 Rhagfyr 2022

Cydlynu gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft ar addysg cyfrwng Cymraeg

Annwyl Jayne,

Roedd canlyniadau'r cyfrifiad yr wythnos hon yn hynod siomedig. Fel y gwyddoch, mae'r data'n awgrymu bod y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg wedi'i yrru'n bennaf gan ostyngiad yn nifer y plant 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg. O ystyried hyn, hoffwn awgrymu bod ein Pwyllgorau yn ceisio cydweithio yn ystod proses y gyllideb ddrafft arfaethedig mewn perthynas â ffigurau'r cyfrifiad ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Os ydych yn cytuno, byddaf yn gofyn i'n swyddogion gydlynu'r gwaith hwn â swyddogion eich Pwyllgor chi.

Yn gywir

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Museums Association

At: Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Delyth.Jewell@senedd.cymru
Caerdydd
CF99 1SN

23 Rhagfyr 2022

Annwyl Delyth Jewell AS

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi bod Cyngor Dinas Caerdydd yn bwriadu lansio ymgynghoriad ar gynllun i gau Amgueddfa Caerdydd.

Mae ymgynghoriad Cyngor Dinas Caerdydd yn gofyn i drigolion ddewis rhwng opsiwn i symud yr Amgueddfa o'r Hen Lyfrgell a'i gwneud yn atyniad symudol er mwyn arbed £266,000 y flwyddyn, ac opsiwn i gadw'r amgueddfa a chanfod arbedion mewn mannau eraill. Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA) yn gwrthwynebu'n bendant yr opsiwn o gau'r amgueddfa a'i gwneud yn atyniad symudol.

Mae'r MA yn gorff proffesiynol sy'n cynrychioli pawb sy'n gweithio mewn amgueddfeydd a gydag amgueddfeydd yn y Deyrnas Unedig. Rwy'n dwyn y mater hwn i'ch sylw chi gan ein bod yn hynod bryderus am y cynllun hwn a'r effaith ar drigolion Caerdydd, busnesau lleol, twristiaeth, aelodau'r staff a chasgliad yr amgueddfa pe bai'r amgueddfa'n cau.

Mae Amgueddfa Caerdydd yn amgueddfa arobryn sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol ac sy'n chwarae rhan hanfodol ym mywyd diwylliannol y ddinas. Mae'r amgueddfa'n cynnig nifer o fanteision cymdeithasol i'r gymuned leol a'r tu hwnt, ac mae'n cyfrannu at brif amcanion llesiant Cyngor Dinas Caerdydd, sef creu cymunedau diogel, hyderus a grymusol yng Nghymru. Roedd arddangosfa 'Pobl Butetown' yn dogfennu hanes cymunedau ethnig-amrywiol Caerdydd ac roedd yn dystiolaeth o'r ffyrdd y mae Amgueddfa Caerdydd wedi bwrw ati i rymuso lleisiau cymunedau lleiafrifoedd ethnig y ddinas, sy'n aml wedi eu gwthio i gyrion y brif ffrwd ddiwylliannol yng Nghymru. Byddai cau Amgueddfa Caerdydd yn golled sylweddol i fywiogrwydd diwylliannol y ddinas.

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a chyllidwyr lleol a chenedlaethol eraill fel Cronfa Gasgliadau Esmée Fairbairn wedi buddsoddi yn yr amgueddfa. Byddai cau'r amgueddfa mor fuan ar ôl y buddsoddiad hwn yn peryglu unrhyw ffynonellau cyllid yn y dyfodol.

Mae'r syniad o droi'r amgueddfa yn amgueddfa symudol neu wib-amgueddfa hefyd yn achos pryder. Gall amgueddfeydd symudol fod yn effeithiol wrth estyn allan at gymunedau, ond byddai angen buddsoddiad sylweddol i wneud hyn. Rydym yn pryderu hefyd am ddyfodol y casgliadau presennol gan nad yw'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gofalu am y casgliadau na'u storio. Ar ôl cymryd costau symud a storio i ystyriaeth, mae'n fwy na thebyg y byddai costau o'r fath yn fwy na'r arbedion tymor byr a ragwelir.

Bu Amgueddfa Caerdydd yn arloesi o ran ymgysylltu â'r gymuned ers amser; byddai cau'r amgueddfa yn golygu colli ased diwylliannol llewyrchus sy'n llwyddo'n gyson i gyflawni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

MUSEUMS CHANGE LIVES

42 Clerkenwell Close
London EC1R 0AZ

020 7566 7800
info@museumsassociation.org
www.museumsassociation.org

@MuseumsAssoc
@museumsassociation
@museumsassociation

Registered in England with limited liability by guarantee under no. 252131. Charity Registration no. 313024. Scottish charity no. SC041856.
VAT Registration no. 523 0407 92

Museums Association

Rydym yn sylweddoli bod awdurdodau lleol mewn sefyllfa ariannol ddyrys a’u bod yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd. Fodd bynnag, ni fydd cau amgueddfa leol boblogaidd yn datrys y broblem. Mae'r amgueddfa'n gwneud cyfraniad economaidd pwysig i'r ddinas. Mae data Sbotolau o 2020 yn dangos bod amgueddfeydd Cymru'n cyfrannu £134m y flwyddyn at economi Cymru ac, felly, arbediad tymor byr ddôi o gau'r amgueddfa, a chost hirdymor. Yn ogystal, mae'r amgueddfa'n atyniad i dwristiaid. Mae'n denu ymwelwyr sy'n gwario arian yn siopau a bwytai'r ddinas gan gyfrannu ymhellach at yr economi leol.

Mae Cymdeithas yr Amgueddfeydd yn cydweithio â Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru i baratoi'r achos cryfaf posibl dros gadw’r amgueddfa ar gyfer pobl Cymru. Byddem yn ddiolchgar o gael eich cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth o’r posibilrwydd y bydd Amgueddfa Caerdydd yn cau ac i ganfod datrysiad na fydd yn arwain at golli sefydliad diwylliannol mor werthfawr.

Yn gywir,

Sharon Heal

Cyfarwyddwr,
Cymdeithas yr Amgueddfeydd (MA)
Cyfeiriad ebost: Sharon@museumsassociation.org

MUSEUMS CHANGE LIVES

42 Clerkenwell Close
London EC1R 0AZ

020 7566 7800
info@museumsassociation.org
www.museumsassociation.org

@MuseumsAssoc
@museumsassociation
@museumsassociation

Registered in England with limited liability by guarantee under no. 252131. Charity Registration no. 313024. Scottish charity no. SC041856. VAT Registration no. 523 0407 92

Eitem 3.19

**Dawn Bowden AS/MS**
**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/DB/563/22

Delyth Jewell AS
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg,
Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
SeneddCulture@senedd.wales

04 Ionawr 2023

Annwyl Delyth,

Rwy'n ysgrifennu atoch am adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - Costau Cynyddol – Yr Effaith ar Ddiwylliant a Chwaraeon

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am fynd ati i ystyried y pwnc ac am gyhoeddi'r adroddiad.

Gweler yn amgaeedig ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r adroddiad. Mae hi wedi ymateb i bob un o'r 10 argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor.

Yn gywir

**Dawn Bowden AS/MS**
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Deputy Minister for Arts and Sport, and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – Costau Cynyddol – Yr Effaith ar Ddiwylliant a Chwaraeon**

Mae effaith y cynnydd mewn costau yn arbennig o amlwg ym meysydd Diwylliant a Chwaraeon fy Mhortffolio, yn enwedig gyda'r cyrff a'r sectorau sy'n ceisio sicrhau adferiad ariannol ar ôl y pandemig lle amharodd y cwymp yn eu cynulleidfaoedd ar eu gallu i gynhyrchu incwm.

Mae'r cynnydd mawr ym mhrisiau ynni wedi ychwanegu at y wasgfa ar gyllidebau. Mae'r cynnydd mewn costau byw'n effeithio hefyd ar y gallu i recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr wrth i bobl ei chael hi'n anodd ysgwyddo costau teithio a gofal plant neu ddewis gwaith sy'n talu'n well. Weithiau, canlyniad yr heriau hyn gyda'i gilydd yw lleihau'r rhaglen weithgarwch ledled Cymru. Gyda llai o incwm i'w wario, mae pobl yn gorfod 'dala'r slac yn dynn' a gwario llai ar weithgareddau hamdden. Mae'r cynnydd yng nghostau cadwyni cyflenwi, yn enwedig o ran deunyddiau a llafur, hefyd yn effeithio ar brosiectau cyfalaf a gwaith cynnal a chadw.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol am eu hadroddiad ar 'Gostau Cynyddol – Yr Effaith ar Ddiwylliant a Chwaraeon'. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion yr adroddiad isod.

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio ar frys gyda'r Llyfrgell Genedlaethol i ddatrys ei phryderon am y "risg difrifol iawn" i'r casgliadau.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda chydweithwyr yn y Llyfrgell Genedlaethol ac yn darparu cymorth ychwanegol lle bo modd i ddelio ag effaith y cynnydd yn y costau yn y misoedd diwethaf. Dyfarnwyd £650,000 ychwanegol yn 2022-23 i helpu â'r cynnydd mewn costau byw a chyfleustodau a £500,000 pellach i dalu am system dân newydd i ddiogelu'r casgliadau.

Bydd grant refeniw'r Llyfrgell Genedlaethol yn cynyddu. Am y ddwy flynedd ariannol nesaf, rydym wedi neilltuo arian ychwanegol fydd wedi'i glustnodi gyda chyfyngiad amser i ysgwyddo'r pwysau ychwanegol o ran tâl, costau byw a chyfleustodau. Bydd cyllid ychwanegol yn cael ei neilltuo hefyd i gefnogi blaenoriaethau'r Cytundeb Cydweithredu, gan gynnwys cynaliadwyedd ariannol. Er bod y wasgfa yn sgil chwyddiant yn parhau'n bryder, bydd yr arian ychwanegol hwn yn helpu i gynnal y Llyfrgell Genedlaethol yn 2023-24 a 2024-25.

Goblygiadau ariannol: gweler uchod

**Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth y DU roi cymorth i leoliadau chwaraeon a diwylliannol gyda chostau ynni y tu hwnt i chwe mis y cynllun cychwynnol. Dylid cadarnhau'r gefnogaeth hon yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach er mwyn rhoi sicrwydd tymor canolig a hir i'r lleoliadau hyn. .

**Ymateb:** Derbyn

Menter gan Lywodraeth y DU yw’r Cynllun Rhyddhad ar Filiau Ynni (EBRS). Mae Gweinidog yr Economi wedi ymateb i Lywodraeth y DU am y cynllun ac mae'r swyddogion yn trafod â thîm EBRS o fewn BEIS. Rydym yn cytuno bod angen sicrwydd ar frys ynghylch dyfodol y cynllun, ac y dylai'r meini prawf ar gyfer cymorth gael eu cyhoeddi fel bod y broses benderfynu’n dryloyw.

Goblygiadau ariannol: dim

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ymddiriedolaethau hamdden yn gymwys i gael cymorth i ddod yn fwy gwyrdd o ran eu defnydd o ynni, fel yr hyn sydd ar gael gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

**Ymateb:** Derbyn

Gall Awdurdodau Lleol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill ofyn i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru am gymorth technegol ac ariannol, i wella effeithlonrwydd ynni eu pyllau nofio a chanolfannau hamdden (gan gynnwys y rhai a reolir gan ymddiriedolaethau hamdden), gan helpu i leihau allyriadau carbon. Mae'r cymorth ariannol yn cynnwys benthyciadau di-log gan Raglen Gyllid Cymru. Mae'r benthyciadau di-log ar gael ar gyfer gwelliannau fel rhan o raglenni ôl-osod mawr, neu brosiectau arbed ynni llai. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau i leihau costau gwresogi drwy wneud adeiladau'n fwy effeithlon o wres, gosod goleuadau LED, a phrosiectau ynni adnewyddadwy fel gosod paneli solar ar y to.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau newydd

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid cyfalaf i’r sector chwaraeon a diwylliannol er mwyn iddynt ddod yn fwy gwyrdd o ran eu defnydd o ynni.

**Ymateb:** Derbyn

Dylai sefydliadau fod yn ystyried eu costau ynni a'u gallu i wrthsefyll heriau fel rhan o'u gwaith cynllunio arferol ar eu hystadau cyfalaf.

Gellir defnyddio'r cyllid cyfalaf heb ei glustnodi a roddir i Awdurdodau Lleol i gynnal eu cyfleusterau chwaraeon a chymdeithasol os yw Awdurdodau o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru’n darparu arian cyfalaf penodol hefyd ar gyfer adnewyddu ac ailfodelu ysgolion a cholegau yn helaeth a phrynu nwyddau newydd yn lle hen rai, er enghraifft drwy'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Erbyn hyn mae'n ofynnol i brosiectau o'r fath fod yn garbon sero-net ac yn aml maent yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon. Darperir cyllid hefyd trwy

grant cyfalaf adeiladau Awdurdodau Lleol a gyflwynwyd rhwng 2023-2024. Gellid ei ddefnyddio er budd adeiladau chwaraeon neu ddiwylliannol o fewn ystad yr Awdurdod Lleol.

Ar gyfer amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol, byddai modd gwneud cais i'r rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid am gymorth ar gyfer prosiectau o'r fath. Mae'r cyllid rydyn ni'n ei ddarparu i Chwaraeon Cymru yn helpu'r sector hefyd i gwrdd â disgwyliadau Cynllun Sero Net Cymru Gyfan a meithrin ei allu i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd, gan sicrhau y gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

Goblygiadau ariannol: gweler uchod

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru roi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu i'r sectorau chwaraeon a diwylliant i helpu lleoliadau a sefydliadau sy'n wynebu'r posibilrwydd o orfod cau ond sydd â dyfodol cynaliadwy y tu hwnt i'r argyfwng uniongyrchol.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod effeithiau aruthrol chwyddiant ar gostau cyfleustodau a chostau byw cyrff hyd braich a sefydliadau yn y sector lleol. I'n helpu â'r pwysau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i neilltuo £3,750,000 ym mlwyddyn ariannol 2022-23 i Lyfrgell Genedlaethol Cymru; Amgueddfa Cymru; sector y celfyddydau trwy Gyngor Celfyddydau Cymru, y sector chwaraeon trwy Chwaraeon Cymru; yr amgueddfeydd annibynnol a llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru; Cyngor Llyfrau Cymru; a'r diwydiannau creadigol annibynnol yng Nghymru.

Mae gan amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau lleol yr hawl i wneud cais i'r rhaglen Grant Cyfalaf Trawsnewid am gymorth i gynnal gwaith cyfalaf fydd yn helpu i wneud eu sefydliad yn gynaliadwy.

Mae Chwaraeon Cymru yn neilltuo arian i'r rheini sydd am wneud eu clybiau'n fwy cynaliadwy. Gellid gwneud hynny trwy wella cyfleusterau a thrwy wella sgiliau gwirfoddolwyr a chymryd camau i gyrraedd y bobl sydd er enghraifft yn cael eu tangynrychioli mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Goblygiadau ariannol: gweler uchod.

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn trafodaethau brys â'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llywodraeth y DU a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i alw am becyn cymorth ar gyfer y DU gyfan i gefnogi'r sectorau diwylliant a chwaraeon mewn ymateb i bwysau costau byw.

**Ymateb:** Gwrthod

Mater i Lywodraeth y DU yw hwn. Mae effaith costau byw cynyddol a'r ffaith nad yw Llywodraeth y DU wedi cadw at ei haddewid i ddarparu arian yn lle arian yr UE wedi creu problemau sylweddol. Byddwn ni yn Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio i flaenoriaethu'n cyllidebau er mwyn amddiffyn y mwyaf bregus a chadw'n hymrwymiad i greu Cymru gryfach, tecach a gwyrddach.

Goblygiadau ariannol: fel a ddisgrifir.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru annog gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol mewn Canolfannau Clyd, ac ariannu'r darparwyr yn unol â hynny.

**Ymateb:** Derbyn

Mae llawer o sefydliadau gan gynnwys Awdurdodau Lleol, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd lleol, cynghorau cymuned, grwpiau ffydd, clybiau chwaraeon, canolfannau cymuned eisoes wrthi'n sefydlu neu'n ystyried sefydlu Canolfannau Clyd yn eu cymunedau lleol. Bwriad Canolfannau Clyd yw darparu lleoedd diogel a chynnes i bobl fynd iddynt yn ystod y dydd yn eu cymunedau lleol i'w helpu i leihau costau gwresogi'u cartref ac i helpu pobl sy'n wynebu tlodi tanwydd eithafol y gaeaf hwn. Mae trafodaethau cynnar â rhanddeiliaid yn dangos bod uchelgais glir bod Canolfannau Clyd yn cynnig mwy na lle cynnes i eistedd ynddo ac y dylent gynnwys neu gael eu datblygu i gynnwys grwpiau buddiant neu weithgareddau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu swm cychwynnol o £1m i helpu i ddatblygu/ehangu Canolfannau Clyd ledled Cymru. Mae arian wedi cael ei roi i lywodraeth leol trwy CLILC. Disgwylir i awdurdodau lleol sicrhau bod trefniadau'n bod yn lleol i sicrhau bod arian Llywodraeth Cymru yn cael ei roi i'r rheini sy'n darparu Canolfannau Clyd (h.y. trwy grantiau lleol neu eu tebyg). Bydd hynny'n cynnwys gweithio gyda'r Cyngor Gwirfoddolwyr Sirol lleol. Mae canllawiau wedi'u rhoi i awdurdodau lleol gydag arian Llywodraeth Cymru.

Dylai Canolfannau Clyd fod yn agored, yn gynhwysol ac ar gael i bawb yn y gymuned. Dylid canolbwyntio ar nodi'r hyn sydd ei angen yn yr ardal a darparu Canolfan Glyd sy'n diwallu'r angen hwnnw. Gallai Canolfan Glyd gynnwys:

- lluniaeth ysgafn (o leiaf) a darparu pryd mwy sylweddol o fwyd os medrir.
- cyngor a gwasanaethau cymorth i'r rheini sy'n ei defnyddio – er enghraifft cyngor a help ar faterion ariannol, iechyd a lles neu gyswllt digidol.
- gweithgareddau cyfoethogi fel ymarfer corff, celf a diwylliant (gan ddibynnu ar y lleoliad a'r hyn sydd ar gael).

Dylai'r Ganolfan Glyd ymateb i'r angen lleol. Er y gellid cynnal rhai mewn adeiladau sy'n eiddo neu sy'n cael eu rheoli gan yr awdurdod lleol, gallent yr un mor rhwydd gael eu sefydlu gan neu drwy fudiadau cymunedol lleol, ffydd neu drydydd sector, neu glwb chwaraeon sy'n defnyddio'u hasedau cymunedol eu hunain neu drwy/gan gyrff cyhoeddus eraill. Gallai'r sector preifat hefyd chwarae rhan a dylai grwpiau busnes lleol chwilio am gyfleoedd, o bosibl trwy weithio gyda'r Ffederasiwn Busnesau Bach a'r CBI.

Gallai gwasanaethau/rhanddeiliaid cenedlaethol hefyd helpu Canolfannau Clyd, yn enwedig o ran rhoi cyngor, arweiniad neu gymorth ychwanegol ar gyfer gweithgareddau cyfoethogi posibl, er enghraifft Cyngor ar Bopeth, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru ac Amgueddfeydd ac Orielau Cymru.

Goblygiadau ariannol: £1m – arian eisoes wedi'i neilltuo i lywodraeth leol

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru roi arweiniad i'r sectorau diwylliant a chwaraeon yn ystod yr argyfwng costau byw. Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n rhoi cymorth penodol i'r sectorau diwylliant a chwaraeon i liniaru effeithiau'r cynnydd mewn costau byw.

**Ymateb:** Derbyn

Fel y dywedir yn Argymhelliad 5, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £3,750,000 ym mlwyddyn ariannol 2022-23 i Lyfrgell Genedlaethol Cymru; Amgueddfa Cymru, sector y celfyddydau trwy Gyngor Celfyddydau Cymru, y sector chwaraeon trwy Chwaraeon Cymru; amgueddfeydd annibynnol a llyfrgelloedd cymunedol yng Nghymru; Cyngor Llyfrau Cymru; a'r diwydiannau creadigol annibynnol yng Nghymru. Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu, rydym wedi cytuno i ddyblu ein buddsoddiad yn Cyfuno erbyn 2024-25. Cyfuno yw ein rhaglen trechu tlodi trwy fynediad, cyfranogiad a chynhwysiant mewn gweithgareddau diwylliannol.

Goblygiadau ariannol: Fel a ddisgrifiwyd

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o ran cymryd rhan mewn chwaraeon, a dyfodd yn ystod y pandemig ac sy'n cael eu gwaethygu gan yr amgylchiadau presennol.

**Ymateb**: Derbyn

Mae sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd ym myd y campau'n ymrwymiad allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu. Mae gwella mynediad a chyfranogaeth, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau yn flaenoriaethau yn llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru ar gyfer tymor y llywodraeth hon.

Mae Llywodraeth Cymru'n neilltuo cyllideb flynyddol i Chwaraeon Cymru - £21.6m o refeniw ac £8m o gyfalaf yn 2022-23 – i gyflawni'r blaenoriaethau yn y llythyr cylch gwaith. Mae Chwaraeon Cymru newydd benodi uwch reolwr EDI i weithio gyda staff Chwaraeon Cymru ar raglen hyfforddi mewn cynhwysiant. Rhan bwysig ohoni yw deall hiliaeth a gweithredu i atal hiliaeth. Mae Chwaraeon Cymru yn ariannu Hyrwyddwyr Cymunedol hefyd i helpu mudiadau cymunedol i fanteisio ar arian a gwasanaethau Chwaraeon Cymru, yn enwedig y rheini mewn cymunedau sy'n brin o wasanaethau.

Ynghyd â'r arian craidd hwn, rydym yn neilltuo arian hefyd ar gyfer cynnal prosiectau sy'n cefnogi ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Lywodraethu o ran gwella mynediad a chynhwysiant. Un enghraifft yw grant Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol sy'n ceisio annog cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gymryd rhan a chael eu cynnwys.

O ran cymryd rhan, rydym yn gweithio ar yr argymhellion yn adroddiad "Sicrhau Chwarae Teg" y Pwyllgor. Gwnaethon ni gynnal Uwchgynhadledd Chwaraeon yn ddiweddar ar y cyd â Chwaraeon Cymru, oedd yn fan cychwyn ar broses deall ac wynebu achosion anghydraddoldeb o ran mynediad i chwaraeon. Mae llawer o heriau, fel y pandemig a'r argyfwng costau byw, wedi dwysáu'r mater hwn mewn sawl cymuned. Byddwn ni'n gweithio gyda Chwaraeon Cymru a phartneriaid eraill i herio ac yna i greu system sy'n caniatáu i bawb fwynhau chwaraeon ar hyd eu hoes.

Goblygiadau ariannol: Dim goblygiadau newydd.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru wella ei gwaith ymgysylltu â'r sector diwylliant er mwyn helpu i ddatblygu ei hymateb i'r cynnydd mewn costau byw.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae gennym hanes clodwiw o ran ymgysylltu â'n sectorau.  Rydym yn cydweithio'n glos gyda chyrff yn y sector a chyda sefydliadau unigol i fonitro a deall effaith yr argyfwng costau byw.

Goblygiadau ariannol: dim

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
w
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales

0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

08 Tachwedd 2022

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-2024

Annwyl Mark,

Fel y gwyddoch, bydd pwyllgorau'r Senedd yn cynnal gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 yn ystod yr hydref.

Tystiolaeth ysgrifenedig

Er mwyn llywio gwaith craffu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol, byddem yn croesawu gwybodaeth ysgrifenedig gennych am y meysydd a nodir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn 14 Rhagfyr 2022.

Tystiolaeth lafar

Byddai'r Aelodau'n ddiolchgar hefyd pe gallech fod yn bresennol mewn sesiwn dystiolaeth lafar ar 11 Ionawr 2023 rhwng 09.30 a 10.30.

Y dull gweithredu

Byddwn yn ceisio dilyn dull y Pwyllgor Cyllid, gan seilio ein dull gweithredu ar y pedair egwyddor ar gyfer gwaith craffu ariannol, sef: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian a phrosesau'r gyllideb. At hynny, byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, Gweinidog yr Economi, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Prif Chwip, o ystyried perthnasedd eu gwaith i'n cylch gwaith.

Yn dilyn y sesiwn, bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu atoch gydag unrhyw geisiadau ychwanegol am wybodaeth neu eglurhad a bydd yn cyhoeddi adroddiad ar ein casgliadau yn y Senedd.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

ATODIAD – CAIS AM WYBODAETH YSGRIFENEDIG CYN CRAFFU AR Y GYLLIDEB DDRAFFT

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am y wybodaeth a ganlyn:

Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

Dadansoddiad o ddyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2023-24 ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol a datblygu rhyngwladol fesul Prif Grŵp Gwariant, Maes Rhaglenni Gwariant, Cam Gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.

Alldro terfynol ar gyfer 2021-22 a rhagolwg o'r alldro ar gyfer 2022-2023.

Sylwadau ar y Camau Gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant mewn perthynas â Chysylltiadau Rhyngwladol a Datblygu Rhyngwladol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 a'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24.

Gwybodaeth arall

Amlinelliad o'r dyraniadau yn y gyllideb drafft i gyflawni'r camau gweithredu sydd ym mhob un o'r cynlluniau gweithredu rhyngwladol ar gyfer Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau sy'n deillio o effaith barhaus y pandemig COVID-19 ac ymadawiad y DU â'r UE i gynlluniau gwariant ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol.

Meysydd penodol

Strategaeth ryngwladol

Dyraniadau a sylwebaeth o ran y canlynol:

- adnoddau ar gyfer sefydliadau Cymry ar wasgar allanol.
- adnoddau ar gyfer pob partner cyflenwi unigol sy'n gyfrifol am gyflawni'r strategaeth.
- adnoddau ar gyfer sefydliadau celfyddydau a chwaraeon allanol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth.
- .
- adnoddau gyda'r nod o hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhyngwladol.

- adnoddau ar gyfer ymgysylltu â’r rhanbarthau a gwledydd blaenoriaeth a amlinellir yn y Strategaeth Ryngwladol.

Rhaglen Cymru ac Affrica

Dyraniadau a sylwebaeth o ran y canlynol:

- yr adnodd a ddarperir i'r 5 prosiect a sefydliad a gefnogir gan raglen Cymru ac Affrica.
- cyllid i gefnogi’r gwaith o ddatblygu prosiectau Plannu Coed ledled Affrica, gan gynnwys Rhaglen Plannu Coed Mbale bresennol.
- cyllid i gefnogi Cymru fel Cenedl Masnach Deg, a manylion y canlyniadau fydd yn cael eu cyflawni a sut y bydd cyflawni'r canlyniadau hyn yn cael ei fesur.

Swyddfeydd rhyngwladol

Dyraniadau a sylwebaeth o ran y canlynol:

- gwaith y Swyddfeydd Rhyngwladol, a manylion y canlyniadau fydd yn cael eu cyflawni a sut y bydd cyflawni'r canlyniadau hyn yn cael ei fesur.
- holl ymgysylltiad arfaethedig Llywodraeth Cymru â digwyddiadau mawr a rhyngwladol, gan gynnwys sut mae cost a budd ymgysylltu â'r digwyddiadau hyn yn cael eu gwerthuso. dyraniadau’r gyllideb ddrafft ar gyfer swyddfeydd rhyngwladol gwahanol, ac ar ba sail y gwnaed y penderfyniadau ar y dyraniadau penodol hyn.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

30 Tachwedd 2022

Rhoi tystiolaeth lafar am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

Annwyl Brif Weinidog,

Cafodd y Pwyllgor wybod gan swyddogion yr wythnos diwethaf na fyddwch yn rhoi tystiolaeth lafar yn ymwneud â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm dros hyn oedd eich bod wedi cytuno'n flaenorol i fynychu un cyfarfod Pwyllgor y flwyddyn, ac y byddai hwnnw'n cyd-daro â chyhoeddi'r adroddiad blynyddol ar gysylltiadau rhyngwladol.

Roedd y Pwyllgor yn siomedig o glywed yr ymateb hwn, a byddem yn nodi y byddai Gweinidogion fel arfer yn mynychu sesiynau craffu ar wahân yn ymwneud â pholisi, deddfwriaeth a chyllidebau. Sylwn fod y meysydd polisi hynny'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol rydych yn gyfrifol amdanynt yn cael cyllid penodedig, a bod sefydliadau allanol a phartneriaid cyflawni yn cael cyllid o'r maes cyllideb hwn. Fel Pwyllgor, rydym yn ymwybodol iawn y bydd yr argyfwng costau byw yn rhoi mwy o bwysau eto ar adrannau'r Llywodraeth i wneud penderfyniadau anodd yn ymwneud â gwariant, a hoffem allu craffu ar y modd y bydd y penderfyniadau hyn yn effeithio ar y meysydd cyllideb rydych yn gyfrifol amdanynt.

Gan na fyddwch ar gael i roi tystiolaeth lafar, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe baech yn anfon ymateb manwl i'r pwyntiau a amlinellwyd yn y llythyr dyddiedig 8 Tachwedd 2022, a hynny erbyn 14 Rhagfyr 2022. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i chi ymateb i unrhyw lythyr dilynol yn gofyn am ragor o wybodaeth ar ôl i'r Pwyllgor gael amser i ystyried y dystiolaeth a gafwyd eich tystiolaeth ysgrifenedig gychwynnol. Gofynnwn ichi ymateb ar fyrder er mwyn inni ei ystyried wrth baratoi ein hadroddiad cyn y dyddiad cau, sef 6 Chwefror 2023.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Delyth Jewell AS
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon,
a Chysylltiadau Rhyngwladol
Senedd Cymru

21 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 8 Tachwedd ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-2024.

Cysylltiadau Rhyngwladol

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o'r dyraniad ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn y Gyllideb Ddrafft ddangosol ar gyfer **2023-24**.

| - **Llinell Wariant yn y Gyllideb** | **Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2023-24 Rhagfyr 2021** | **Trosglwyddiadau MEG i MEG** | **Cyllideb Derfynol Ddangosol 2023-24 Mawrth 2022** |
|---|---|---|---|
| | **£000oedd** | **£000oedd** | **£000oedd** |
| Cysylltiadau Rhyngwladol | 8,904 | (350) | 8,554 |
| **Cam gweithredu: Rhyngwladol** | **8,904** | **(350)** | **8,554** |
| **Maes Rhaglenni Gwariant: Rhyngwladol** | **8,904** | **(350)** | **8,554** |

Mae gostyngiad o £350,000 i £8.554m yn y gyllideb o ganlyniad i drosglwyddiad MEG i MEG (Prif Grŵp Gwariant) y cytunwyd arno, o Gysylltiadau Rhyngwladol i Ddatblygiad Rhyngwladol er mwyn helpu i gyflawni agweddau Cymru ac Affrica ar y Strategaeth

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ryngwladol. Gwnaed y trosglwyddiad yn 2022-23 a bydd hefyd yn cael ei weithredu yn 2023-24 a 2024-25 gan ymestyn y trosglwyddiadau o £350,000 hyd at ddiwedd y Strategaeth Ryngwladol. Daw'r tabl uchod o'r tablau Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) a gyhoeddwyd ar gyfer Cyllideb Derfynol 2022-23 i 2024-25.

Ers hynny bu gostyngiad pellach o 2% i'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol fel rhan o ailflaenoriaethu cyllideb yr hydref Llywodraeth Cymru a gostyngiadau yn y gyllideb o fewn y MEG. Felly, mae cyllidebau Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer 2023-24 wedi gostwng o £8.554m i £8.383m (£0.171m yn llai).

Fel rhan o'r broses cyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2023-24, cytunwyd y bydd £100,000 ychwanegol yn cael ei drosglwyddo o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol o fewn MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r BEL Datblygu Rhyngwladol o fewn MEG Cyfiawnder Cymdeithasol er mwyn talu pwysau chwyddiant ar gyfer prosiect Plannu Coed Mbale. Dim ond ar gyfer blwyddyn 2023-24 y mae'r trosglwyddiad hwn. Mae hynny'n golygu mai £8.283m fydd y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn 2023-24.

Alldro terfynol **2021-22** ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol oedd £5.861m yn erbyn cyllideb o £8.554m - tanwariant o £2.692m. Mae'r amrywiant hwn yn ganlyniad i oedi o ran atgyfnerthu'r swyddfeydd tramor a llai o weithgareddau ymgysylltu gydol y flwyddyn. Dau ffactor yw effeithiau'r pandemig Covid, sy'n parhau i effeithio ar ranbarthau ledled y byd ar adegau gwahanol.

Roedd y gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer **2022-23** yn £8.554m yn y lle cyntaf. Yna fe wnaeth Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 ar gyfer Cyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ostwng y gyllideb honno o £8.554m i £8.537m oherwydd bod £17,000 ar gyfer prydlesi IAS17 wedi cael ei ddychwelyd i gronfeydd wrth gefn. Hefyd, cytunodd Cysylltiadau Rhyngwladol i drosglwyddo £100,000 i MEG yr Economi er mwyn cefnogi ymgyrch farchnata Cwpan y Byd, gyda phwyslais ar werthoedd, ac ail drosglwyddiad o £20,000 i MEG yr Economi er mwyn cefnogi'r artistiaid hynny fu'n cynrychioli Cymru yng Ngŵyl Lorient. Bydd Cysylltiadau Rhyngwladol hefyd yn derbyn dyraniad cyllid untro o £7,000 gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu er mwyn cefnogi dyfarniadau cyflog i staff wedi'u lleoli dramor. Arweiniodd hyn at gyllideb gwerth £8.424m ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn 2022-23.

Mae cysylltiadau rhyngwladol yn rhagweld alldro o tua £7.9m yn 2022-23 ac felly tanwariant o tua £524,000 ar gyfer eleni (i'w gadarnhau). Dylid nodi bod sawl newidyn yn ymwneud â'r rhagolwg hwn a byddwn yn ei adolygu'n gyson. Mae'r pandemig Covid wedi parhau i effeithio ar ein rhwydwaith a gwaith ymgysylltu eleni - er i raddau llai nag yn 2021-22.

<u>Datblygiad rhyngwladol</u>

Mae Cyllideb Ddrafft Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2023-24 yn £1.275m sy'n cynnwys £925,000 gan MEG gwahanol o dan gyfrifoldeb y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, ynghyd â'r trosglwyddiad MEG i MEG y soniwyd amdano uchod o £350,000 gan Gysylltiadau Rhyngwladol i ddarparu agweddau ar y Strategaeth Ryngwladol (prosiect Plannu Coed Mbale a phrosiectau grymuso menywod). Fel y nodwyd uchod, bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei weithredu yn 2024-2025 hefyd tan ddiwedd y Strategaeth Ryngwladol.

Fel rhan o'r broses cyllideb atodol ar gyfer 2023-24, bydd £100,000 ychwanegol yn cael ei drosglwyddo o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i'r BEL Datblygu Rhyngwladol o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i dalu

pwysau chwyddiant ar gyfer prosiect Plannu Coed Mbale. Dim ond ar gyfer blwyddyn 2023-24 y mae'r trosglwyddiad hwn

Roedd y gyllideb Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2021-22 yn £1.275m, gyda dim ond £350,000 o'r cyfanswm hwnnw dan gyfrifoldeb y Prif Weinidog. Yr alldro terfynol am y flwyddyn oedd £6.775m gyda'r gorwario o £5.5m y cytunwyd arno yn 2021-2022 oherwydd rhodd gwerth £4m y Pwyllgor Argyfyngau (DEC) i Wcráin a £1.5m arall a wariwyd ar grantiau yn ymwneud â Covid gyda £0.633m fel gwariant cyfalaf.

Y gyllideb Datblygu Rhyngwladol ar gyfer 2022-23 yw £1.275m, gyda rhagolygon alldro o £1.375m sy'n cynnwys pwysau a ragwelir o £100,000 ar gyfer apêl llifogydd DEC Pacistan. Bydd tanwario yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn gwneud iawn y gorwariant hwn.

Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23 ar gyfer Datblygiad Rhyngwladol yw £1.275m.

**Gwybodaeth arall**

Cyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer 2023-24 yw £8.283m, ar ôl trosglwyddiad MEG i MEG o £350,000 o'r grwp Cysylltiadau Rhyngwladol i gyflawni agweddau ar y Strategaeth Ryngwladol (Prosiect Plannu Coed Mbale a phrosiectau grymuso menywod) a throsglwyddiad MEG i MEG ychwanegol o £100,000 i dalu pwysau chwyddiant ar gyfer prosiect plannu coed Mbale.

O'r gyllideb hon gwerth £8.283 miliwn ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol yn 2023-24, dyrannwyd £4.684 miliwn i'r gyllideb costau rhedeg swyddfeydd tramor, £0.75 miliwn i'r gyllideb gweithgareddau swyddfeydd tramor ac wedyn £2.849 miliwn i'r gyllideb Ymgysylltu Ryngwladol.

O fewn y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol hon o £2.849m, mae £150,000 wedi'i ddyrannu i'r Cynllun Gweithredu Perthnasoedd a Rhwydweithiau Rhanbarthol sy'n cael Blaenoriaeth, £1.3 miliwn ar gyfer Cynllun Gweithredu ar Gymell Tawel a Diplomyddiaeth Gyhoeddus ac mae £190,000 wedi'i ddyrannu i'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chymry ar Wasgar. Caiff gweddill y gyllideb, £1.21m, ei ddefnyddio i ariannu gweithgarwch trawsbynciol sy'n cefnogi ein hamcanion Cysylltiadau Rhyngwladol cyffredinol a'r Strategaeth Ryngwladol yn hytrach na'i fod yn gysylltiedig â Chynllun Gweithredu penodol.

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ein gwaith o ystyried yr ymateb amrywiol i'r sefyllfa ledled y byd. Mae hyn wedi effeithio ar ein gallu i gynllunio a chynnal digwyddiadau, gyda llawer o weithgareddau yn symud ar-lein. Er hynny, mae'r pandemig wedi codi ymwybyddiaeth o Gymru ar lwyfan byd-eang hefyd, a bu diddordeb yn ymateb Cymru i COVID-19. Mae gweithgarwch bellach wedi dychwelyd i'r arfer mewn sawl rhan o'r byd, gyda China yn parhau'n eithriad amlwg.

**Meysydd penodol**

Strategaeth Ryngwladol

Bydd ymgysylltu â'n Cymry ar wasgar, ein rhanbarthau a'n gwledydd sy'n cael blaenoriaeth, sefydliadau'r celfyddydau a chwaraeon a hyrwyddo partneriaid Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i fod yn ffocws sylweddol i ni, a byddwn yn parhau i ddyrannu cyllid o'n cyllideb ymgysylltu rhyngwladol yn 2023-24 i gefnogi hyn.

Byddwn ni'n parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid strategol i baratoi cynlluniau cyflawni ar gyfer 2023-24 yn ogystal â chwilio am gyfleoedd i gydweithio er mwyn cyflawni ein Strategaeth yn well.

Rydym ni'n disgwyl i'n partneriaid strategol gyflwyno eu cynlluniau ymgysylltu a chyflawni yn chwarter cyntaf y flwyddyn nesaf a byddwn yn ystyried eu cais am adnoddau yn unol â hynny. Byddwn hefyd yn parhau i weithio gyda phartneriaid strategol nad ydym yn eu hariannu'n uniongyrchol ond sy'n cyfrannu at wireddu'r Strategaeth.

Rhaglen Cymru ac Affrica

Cyllideb Cymru ac Affrica ar gyfer 2023-24 yw £1.375m - gyda'r trosglwyddiadau MEG i MEG o £350,000 a £100,000. Mae rhaglen Cymru ac Affrica yn rhan o bortffolio'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, gyda £450,000 (drwy drosglwyddiadau) o'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu at Gynllun Gweithredu Cymru ac Affrica.

Mae'r £450,00 o gyllid Cysylltiadau Rhyngwladol yn cyfrannu at grant o £550,000 i raglen Maint Cymru, yn bennaf er mwyn darparu Rhaglen Plannu Coed Mbale, gyda rhywfaint o gyllid wedi'i ddyrannu i brosiect Coedwig Gymunedol Bore yn Kenya.

Mae ymrwymiadau eraill o fewn cyllideb Cymru ac Affrica y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cynnwys grant o £349,000 ar gyfer Hub Cymru Africa sy'n penderfynu ar ddyraniad cyllid y grant hwnnw ei hun. Mae Ymgyrch Cenedl Masnach Deg yn cael ei ariannu o fewn y grant hwn. Mae hefyd yn cynnwys contract o £286,000 i CGGC er mwyn cynnal a dyfarnu Cynllun Grantiau Bach Cymru ac Affrica – grantiau o rhwng £5,000 a £25,000, grant o £20,000 i DEC Cymru i gynorthwyo gyda'u gwaith codi arian a chydlynu a £100,000 i gyflwyno'r Rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol – sy'n anfon pobl ar leoliadau 8 wythnos i Uganda, Namibia a Lesotho.

Swyddfeydd rhyngwladol

Y gyllideb ar gyfer Swyddfeydd Rhyngwladol yw £5,434,000. Mae'n cael ei rannu rhwng cyllideb flynyddol o £4,684,000 ar gyfer costau rhedeg swyddfeydd tramor a chyllideb flynyddol o £750,000 ar gyfer gweithgareddau cyfunol. Mae'r gyllideb costau rhedeg swyddfeydd tramor yn cynnwys rhent swyddfeydd, taliadau platfform FCDO a chyflogau staff ac argostau. Mae'r gyllideb gweithgareddau yn cefnogi gweithgarwch rhwydwaith-cyfan ar gyfer y swyddfeydd tramor. Nid ydym yn pennu cyllidebau costau rhedeg rhaglenni ar gyfer pob swyddfa gan fod y rhain yn cael eu rheoli'n ganolog. Mae'r swyddfeydd tramor hefyd yn gallu gwneud cais i'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol i gyflawni yn erbyn y cynlluniau gweithredu a gweithgarwch trawsbynciol.

Mae'r Swyddfeydd Rhyngwladol yn cyflawni yn erbyn nodau penodol y Strategaeth Ryngwladol a'r Cynlluniau Gweithredu cysylltiedig, yn ogystal â chylch gwaith cyhoeddedig y swyddfeydd unigol.

O ran ymwneud â digwyddiadau mawr/rhyngwladol, fe wnaethom gychwyn ar raglen 18 mis o ddiplomyddiaeth chwaraeon ym mis Awst 2022 - gyda'r nod o geisio manteisio ar gyfleoedd ar ôl i Gymru gyrraedd sawl pencampwriaeth o bwys mewn campau amrywiol gan gynnwys hoci, pêl-rwyd, rygbi a phêl-droed. Dechreuodd hyn gyda digwyddiad yng Ngemau'r Gymanwlad, gyda phwyslais ar ferched a menywod yn cymryd rhan ym myd y campau, gan ddenu cynulleidfa ryngwladol i glywed gan athletwyr ddoe a heddiw. Fel rhan o dwrnamaint Cwpan Pêl-droed y Dynion FIFA, rydym wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar hyd a lled y byd i geisio codi ymwybyddiaeth a phroffil Cymru. Dros y flwyddyn nesaf

byddwn yn ystyried sut i elwa i'r eithaf ar gyfleoedd chwaraeon gan ddechrau gyda Chwpan Hoci'r Byd yn India ym mis Ionawr hyd at Gwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc yn yr hydref. Hefyd, byddwn yn blaenoriaethu cyfleoedd yng Nghymru gan gynnwys Pencampwriaeth Rygbi Cadair Olwyn Ewrop yng Nghaerdydd ym mis Mai 2023. Rydym hefyd yn cynllunio digwyddiadau ymgysylltu mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau rhyngwladol eraill yng Nghymru a thu hwnt gan gynnwys Uwchgynhadledd Heriau Byd-eang Hillary Clinton yn Abertawe. Mae'n anodd mesur cynlluniau cymell tawel, oherwydd union natur y gweithgarwch, ond mae'n arf hynod werthfawr yn ein gwaith ymgysylltu rhyngwladol.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi. Edrychaf ymlaen at drafodaethau pellach gyda'r Pwyllgor.

Dymuniadau gorau

**MARK DRAKEFORD**

Eitem 7

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeirydd,

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Benodiadau Cyhoeddus

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnal ymchwiliad i benodiadau cyhoeddus. Yn ei ymgynghoriad ar graffu ar weinyddiaeth gyhoeddus yn hydref 2021, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth a argymhellodd gynnal ymchwiliad yn y maes hwn. Barnwyd bod y mater hwn yn un sydd heb gael sylw digonol ers i'r Senedd gael ei sefydlu.

Ceir manylion ein cylch gorchwyl cytunedig ar gyfer yr ymchwiliad yn Atodiad A. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gallai pryderon am y broses penodiadau cyhoeddus fynd y tu hwnt i'r cylch gorchwyl hwnnw. Gan hynny, byddem yn croesawu safbwyntiau a phrofiadau eich pwyllgorau ar y materion a restrir ac ar unrhyw faterion eraill sydd, yn eich barn chi, yn berthnasol i'n gwaith.

Rwy'n edrych ymlaen at glywed gennych ac yn gofyn yn garedig am i ymatebion gyrraedd erbyn dydd Gwener 27 Ionawr 2023.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Atodiad A

Mae’r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â’r broses ar gyfer penodiadau cyhoeddus, gan gynnwys meysydd y gellid eu gwella i gynyddu amrywiaeth y penodiadau cyhoeddus a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae’r materion i’w hystyried yn cynnwys y canlynol:

- Rôl yr Uned Cyrff Cyhoeddus ac effeithiolrwydd ei pherthynas â byrddau cyrff cyhoeddus o ran sicrhau llywodraethu da a threfniadau penodi cyhoeddus effeithiol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gymorth parhaus i aelodau byrddau.
- Barn y cyrff corfforaethol hynny sy'n cael penodiadau cyhoeddus am y broses penodiadau cyhoeddus.
- Rôl Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.
- Beth yw’r prif rwystrau i gynyddu amrywiaeth ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru? Sut mae'r rhain yn amrywio yn ôl ffactorau, gan gynnwys yn ôl:
    - Oedran
    - Rhyw
    - Ethnigrwydd
    - Anabledd
- Pa mor effeithiol yw dulliau cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer annog a chynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr?
- Ym mha ffordd y gellir gwella'r broses penodiadau cyhoeddus i gyflawni hyn?
- Sut y gall Llywodraeth Cymru greu proses penodiadau cyhoeddus fwy tryloyw ac agored?
- A oes enghreifftiau o arfer gorau mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol y dylai Cymru ddysgu oddi wrthynt?